# Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn Caerdydd 2019-2023










UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

**"This document is available in English/Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg."**

# Cynnwys


| Pennod | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rhoi'r Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn ar Waith | 4 |
| Canfyddiadau Allweddol | 5 |
| Crynodeb o Ymrwymiadau | 9 |
| Cyd-destun Polisi Cenedlaethol | 12 |
| Cyd-destun Polisi Lleol | 14 |
| Poblogaeth Hŷn Caerdydd | 15 |
| Mathau o Dai i Bobl Hŷn | 18 |
| Sut Gall Tai Helpu? - Canfyddiadau Allweddol yr Ymchwil | 20 |
| Buddion Cymharol Tai ar gyfer Pobl Hŷn | 21 |
| Deall yr Angen am Dai | 22 |
| Ateb Galw'r Dyfodol | 30 |
| Pobl | 41 |
| Pwysigrwydd Cymuned | 63 |
| Cydraddoldeb | 70 |

# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Tai hon ar gyfer Pobl Hŷn yn amlinellu sut bydd y Cyngor a phartneriaid yn llunio ac yn darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl hŷn sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion a dyheadau, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i gyflawni blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Mae'r oedran pan gaiff rhywun ei ddiffinio'n 'hŷn' yn amrywio rhwng cyd-destunau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cydnabyddir nad yw llawer o bobl sy'n cael eu diffinio'n hŷn yn eu hystyried eu hunain yn 'hen; fodd bynnag, bydd rhai yn dechrau profi dirywiad corfforol yn eu 50au ac yn gallu dechrau mynd wrthi i gynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, gan gynnwys ystyried llety mwy addas. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â phobl 50 oed a hŷn, gan ganolbwyntio ar yr ystodau oedran hŷn a phobl ag anghenion penodol.

### Heriau Tai Poblogaeth sy'n Heneiddio

Fel mewn sawl ardal, rhagfynegir y bydd poblogaeth hŷn Caerdydd yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn peri nifer o heriau tai. Oherwydd achosion cynyddol o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran megis nam symudedd neu synhwyraidd, eiddilwch a chlefydau cronig, mae'n debygol y bydd angen llety arbenigol neu gymorth ychwanegol ar fwy o bobl i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

Gall tai gwael neu anaddas amharu'n anghyfartal ar iechyd corfforol a meddyliol, annibyniaeth a lles pobl hŷn. Er enghraifft, mae amgylchedd sydd wedi'i ddylunio neu'i gynnal



yn wael yn cynyddu'r perygl y bydd pobl yn baglu ac yn cwympo, a gall cartref damp neu oer achosi neu waethygu cyflyrau anadlu.

Mae llety sy'n anodd cael mynediad iddo neu nad yw'n agos at ffrindiau, aelodau'r teulu neu wasanaethau yn gallu lleihau symudedd a'r gallu i gymryd rhan yn y gymuned, gan gyfrannu at unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.

Yn aml mae amrywiaeth o ffactorau'n dylanwadu ar ddewisiadau tai gan gynnwys iechyd corfforol; anghenion gofal a chymorth; chyllid; a llety presennol. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod amrywiaeth dyheadau a dymuniadau tai pobl hŷn. Fodd bynnag, oherwydd adnoddau mwyfwy cyfyngedig a'r galw cynyddol am wasanaethau, mae'n rhaid blaenoriaethu anghenion ailgartrefu pobl hŷn sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n byw mewn llety sy'n niweidiol i'w hansawdd bywyd.

Mae'r Strategaeth hon yn dod ynghyd yr ymatebion i ateb yr heriau a chyflenwi cydbwysedd o fathau addas o lety, gan alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol mor hir â phosibl, gyda mynediad i wasanaethau a chymorth priodol.

# Rhoi'r Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn ar Waith

Bydd gwaith partneriaeth yn rhan annatod o symud ymlaen â'r Strategaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys cydweithredu rhwng Tai, Gofal Cymdeithasol a Chynllunio yn y Cyngor, a chyda phartneriaid allweddol eraill gan gynnwys Iechyd, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a datblygwyr tai. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu i fonitro cynnydd. Caiff hwn ei ddiweddaru'n rheolaidd, gan gyfrannu at adroddiad blynyddol Strategaeth Tai Caerdydd.




## Y Weledigaeth a'r Nodau Allweddol

Wrth roi'r strategaeth hon ar waith, **gweledigaeth** y Cyngor a'i bartneriaid yw:

**'Cyflawni'r canlyniadau tai gorau i'r holl bobl hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd'.**

Mae nifer o **nodau allweddol** yn cefnogi'r weledigaeth hon:

- Darparu cartrefi newydd sy'n diwallu anghenion a dyheadau tai pobl hŷn;
- Gwella ein cartrefi presennol i sicrhau eu bod yn addas at y diben;
- Cynllunio cartrefi a chymunedau newydd i ddiwallu anghenion tai a gofal ar draws pob deiliadaeth;
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n seiliedig ar y person;
- Helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth yn hwy;
- Sicrhau y diwellir anghenion y bobl sydd fwyaf agored i niwed;
- Creu cymunedau cryfach, mwy cynhwysol a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

# Canfyddiadau Allweddol

## POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO'N GYNYDDOL



Erbyn 2037 bydd nifer y bobl sy'n 65-84 oed yn cynyddu 42% a bydd y rhai sy'n 85 oed ac yn hŷn bron yn dyblu. Mae hyn yn debygol o gynyddu nifer y bobl y bydd angen llety neu gymorth arbenigol arnynt na ellir ei ddarparu yn eu cartrefi presennol.

Rhagfynegir i nifer y bobl yng Nghaerdydd â demensia gynyddu 67% i'r rhai sy'n 65+ oed ac 85% i'r rhai sy'n 85+ oed rhwng 2015 a 2035. Bydd hyn, yn ogystal â nifer cynyddol o achosion o gyflyrau iechyd a symudedd sy'n gysylltiedig ag oedran yn rhoi pwysau mawr ar wasanaethau a chyllidebau gofal cymdeithasol.

Mae'r canfyddiadau o ymchwil amrywiol yn dangos yr angen am ofal preswyl, gydag arbedion cysylltiedig i gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol.

## BUDDION CYMHAROL TAI AR GYFER POBL HŶN



Ar gyfartaledd mae cost tai gofal ychwanegol yn 57% o gost wythnosol gofal preswyl.

Mae angen cynyddu buddion ataliol tai cymaint â phosib a gwneud y defnydd gorau o lety arbenigol i wneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

## DEALL YR ANGEN AM DAI

Ceir amrywiaeth o gynigion tai ymddeol rhent cymdeithasol a phreifat i bobl hŷn yng Nghaerdydd; fodd bynnag, mae darpariaeth yn gyfyngedig y tu allan i ogledd a gorllewin y ddinas. Mae prinder tai gofal ychwanegol/tai â darpariaeth ofal a bydd hyn yn cyfyngu ar y gostyngiadau cost posibl y gellir eu cyflawni ar gyfer comisiynwyr gofal cymdeithasol ac iechyd.



Amcangyfrifir bod angen am 3,051 o unedau llety pobl hŷn ychwanegol erbyn 2035. Dadansoddir y cynnydd hwn fel a ganlyn:

Tai pobl hŷn – 1,787 uned (353 rhentu, 1,434 perchnogaeth)
Tai â gofal – 609 uned (232 rhentu, 377 perchnogaeth)
Gofal nyrsio – 655 o welyau

Mae ansicrwydd am gyflwr tai presennol ar gyfer pobl hŷn yn y sector cymdeithasol a'r cyfleusterau sydd ar gynnig. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall pa mor dda mae'r eiddo hyn yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth hŷn yn y dyfodol.

Roedd 28% o'r bobl a holwyd yn cynllunio symud o fewn y 5 mlynedd nesaf gyda'r rhan fwyaf yn awyddus cael eiddo â 2 ystafell wely (58%). Roedd llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn fwy poblogaidd ymhlith y rhai a oedd yn rhentu na'r rhai oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain.

## ATEB GALW'R DYFODOL

Mae amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer adeiladau cartrefi fforddiadwy newydd ar gyfer pobl hŷn/sy'n barod ar gyfer gofal eisoes yn yr arfaeth a bydd y rhain yn darparu 729 o gartrefi newydd erbyn 2030 y bydd 434 ohonynt yn gartrefi cyngor, 195 yn gartrefi LCC a 100 ar gyfer perchnogaeth breifat.



Os bydd pob cynllun yn cael ei gymeradwyo, bydd hyn yn darparu mwy na'r angen ychwanegol a ragfynegir am lety rhent, sef 585 uned. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pob llety presennol i bobl hŷn yn bodloni ofynion y dyfodol a gallai fod angen datgomisiynu rhai. Felly, byddwn yn parhau i geisio cyfleoedd i ddatblygu tai yn y dyfodol.

Ni fu polisi cynllunio yn rhagweithiol yn y gorffennol wrth annog darparu rhagor o dai, er ei fod yn caniatáu am ddatblygu tai newydd i bobl hŷn. Mae fersiwn newydd Polisi Cynllunio Cymru yn llawer gliriach o ran y rôl y dylai cynllunio ei chwarae wrth hyrwyddo tai ar gyfer pobl hŷn ac mae gofyn i'r awdurdod bennu targedau penodol ar gyfer tai pobl hŷn a gweithio gyda datblygwyr i gyflawni hyn.

Bydd angen canolbwyntio ar dai preifat i bobl hŷn er mwyn darparu'r 1,811 o gartrefi ychwanegol 'ar werth' a amcangyfrifwyd.

## CEFNOGI ANNIBYNIAETH

Mae Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Caerdydd yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n canolbwyntio ar helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Mae cryn lwyddiant wedi'i gyflawni gyda 75% o gleientiaid yn cael cymorth i aros gartref heb yr angen am ymyrraeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn cael ei ariannu'n bennaf trwy grant gan Lywodraeth Cymru ond nid oes sicrwydd ynglŷn â'r cyllid hwn yn y dyfodol. Gall parhad y gwasanaeth hwn fod dan fygythiad os na sicrheir cyllid yn y dyfodol.

Mae Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi mewn darparu addasiadau i gartrefi. Mae'r Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl yn gweithio'n dda, gan ddarparu addasiadau mewn modd amserol a chost-effeithiol sy'n chymharu'n dda â gweddill Cymru.

Mae'n debygol y bydd y galw am addasiadau i'r anabl barhau i gynyddu, gan roi pwysau ar adnoddau presennol. Mae angen deall costau'r gwasanaeth yn y dyfodol a sicrhau bod cartrefu a chyfarpar wedi'u haddasu'n cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

## DARPARU CYNGOR AR DAI

Pan ofynnwyd iddynt, roedd pobl hŷn yn anymwybodol yn aml o’r gwahanol ddewisiadau tai a oedd ar gael ac roeddent yn pryderu am y materion ariannol, cyfreithiol ac ymarferol sy’n gysylltiedig â symud. Dros y blynyddoedd nesaf bydd angen gwella’r cyngor arbenigol ar dai sydd ar gael i bobl hŷn.

## CEFNOGI SYMUD I GARTREF LLAI

Mae buddion sylweddol i bobl hŷn sy’n symud i gartref llai mwy priodol a gall hyn chwarae rhan sylweddol wrth eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.

Mae nifer mawr o bobl hŷn sy’n tanfeddiannu tai cymdeithasol. Gallai cynnig dewisiadau tai deniadol iddynt eu hannog i symud i gartref llai, a fyddai’n rhoi llety mwy cynaliadwy iddynt wrth ryddhau llety mawr ei angen i deuluoedd.

Cafwyd peth llwyddiant wrth gynorthwyo denantiaid cymdeithasol hŷn i symud i gartrefi llai. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ehangu ar y llwyddiant hwn, gan symud rhwystrau a rhoi dewis gwell er mwyn annog symud i gartref llai. Mae hyn a hyn o gymorth ar gael i berchnogion cartrefi a’r rhai yn y sector rhent preifat i’w helpu i symud i gartrefi llai.

## CYNLLUNIAU TAI GWARCHOD

Bydd darparu cymorth ar y safle mewn cynlluniau tai gwarchod yn bwysig wrth ddiwallu anghenion cynyddol y boblogaeth hŷn. Mae newidiadau ariannu eisoes wedi arwain at beth gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael ac os bydd hyn yn parhau, bydd yn effeithio ar allu cynlluniau tai gwarchod i ddiwallu anghenion cynyddol cleientiaid hŷn.

Mae cyfle i ddarparu dulliau gwahanol o gymorth megis “Gwarchod Ychwanegol” neu “Gofal Ychwanegol Ysgafn” fel dewisiadau i ddiwallu’r amrywiaeth o anghenion y boblogaeth hŷn.

## DYRANIAD TAI CYMDEITHASOL

Nid yw'r broses bresennol o ddyrannu tai cymdeithasol yn ystyried dewisiadau tai'r ymgeiswyr hŷn ac nid yw materion lles megis allgáu cymdeithasol a'r angen am ddiogelwch a diogeledd yn cael eu cofnodi neu eu hadlewyrchu yn y broses ddyrannu. Mae angen adolygu'r rhestr aros a'r trefniadau dyrannu er mwyn adlewyrchu dewisiadau tai ac anghenion ehangach pobl hŷn yn llawn.

## GOFAL PRESWYL A NYRSIO

Mae lleoliadau gofal preswyl wedi gostwng yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf gan fod gwasanaethau bellach ar gael yn y gymuned i gefnogi pobl sy'n gynyddol eiddil yn eu cartrefi. Fodd bynnag, mae lleoliadau mewn cartrefi nyrsio'n uwch na'r disgwyl ac os bydd y duedd hon yn parhau, bydd angen 655 o welyau ychwanegol ar gartrefi nyrsio Caerdydd erbyn 2035, sector sy'n cael anhawster wrth recriwtio'r staff iawn.

Er bod gwasanaethau teleofal presennol yn helpu llawer o bobl i aros yn annibynnol, mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg newydd i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain

## PWYSIGRWYDD CYMUNED

Mae cysylltiad â'r gymuned yn allweddol i les llawer o bobl hŷn. Gellir cymharu allgáu cymdeithasol â risgiau iechyd megis ysmygu ac yfed alcohol. Mae gan Gaerdydd amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu i atal allgáu cymdeithasol a hyrwyddo lles; mae llawer yn seiliedig ar Hybiau Cymunedol y Cyngor.

Mae nifer o fentrau newydd yn cael eu datblygu i barhau â hyn, gan gynnwys yr hybiau lles Cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas a chynigion i agor y cyfleusterau yng nghyfadeiladau tai pobl hŷn i'r gymuned ehangach.

# Crynodeb o Ymrwymiadau

## 1 Darparu cartrefi newydd sy’n diwallu anghenion a dyheadau tai pobl hŷn.

- Gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd ac LCC i ddatblygu cynllun sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y ddinas gyfan er mwyn datblygu tai fforddiadwy yn y dyfodol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy’n byw gyda demensia a chydag amrywiaeth eang o anghenion gofal.
- Darparu isafswm o 741 o gartrefi newydd ar gyfer pobl hŷn erbyn 2030 y bydd 434 ohonynt yn gartrefi cyngor, 207 yn gartrefi LCC a 100 ar gyfer perchnogaeth breifat, a datblygu cynigion ychwanegol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i adeiladu 2,000 o gartrefi newydd.
- Cynyddu nifer y cartrefi gofal ychwanegol a ddarperir, a defnyddio’r rhain fel dewis arall uniongyrchol i’r defnydd o welyau gofal preswyl cyffredinol.
- Cynyddu’r cyflenwad o dai ‘parod ar gyfer gofal’ i bobl hŷn sy’n addas ar gyfer heneiddio yn y lle ac sy’n galluogi darparu gofal cartref yn ôl yr angen.

## 2 Gwella ein cartrefi presennol i sicrhau eu bod yn addas at y diben.

- Gweithio gyda phartneriaid LCC i ddeall cyflwr tai presennol y ddinas ar gyfer pobl hŷn yn well yn ogystal â’r defnydd ohonynt yn y dyfodol. Adolygu pob eiddo “oedran-ddynodedig” y Cyngor er mwyn gwella hygyrchedd.
- Parhau i adnewyddu stoc gwarchod y Cyngor fesul cynllun, gan sicrhau achrediad RNIB ar gyfer cynlluniau sydd wedi’u hadnewyddu.

## 3 Cynllunio cartrefi a chymunedau newydd i ddiwallu anghenion tai a gofal ar draws pob deiliadaeth.

- Gweithio tuag at roi’r Polisi Cynllunio Cymru newydd ar waith yn llawn fel y mae’n ymwneud â thai pobl hŷn, gan gynnwys y defnydd o Ganllawiau Cynllunio Atodol lle bo’n briodol.
- Fel rhan o’r paratoadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol nesaf, pennu targed ar gyfer darparu tai i bobl hŷn a gweithio gyda datblygwyr i fwrw’r targed hwn.
- Parhau i weithio gydag adeiladwyr tai marchnad i ddarparu cartrefi fforddiadwy i bobl hŷn yn agos at y canolfannau lleol newydd neu ynddynt.

## 4 Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n seiliedig ar y person.

**Datblygu "Uned Pobl Hŷn a Chartrefi Hygyrch" newydd er mwyn:**

- Darparu cyngor arbenigol ar dai i bob person hŷn i'w helpu i ddeall ei ddewisiadau tai'n well.
- Sicrhau bod cyngor a gwybodaeth o safon uchel ar gael ar wefan y Cyngor, mewn Hybiau a thrwy sesiynau a digwyddiadau gwybodaeth.
- Cefnogi pobl ag anableddau i gael mynediad i eiddo wedi'i addasu.
- Hyrwyddo tai gofal ychwanegol fel dewis arall i ofal preswyl ac fel cam i lawr o'r ysbyty, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r manteision ymhlith pobl hŷn a gweithwyr proffesiynol.
- Cefnogi pobl hŷn i symud i lety llai, mwy priodol.
- Hwyluso cyfnewidiadau rhwng tenantiaid cymdeithasol trwy wybodaeth a ddelir ar y Rhestr Aros Tai.

## 5 Helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth yn hwy.

- Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gynnal.
- Parhau ag ymrwymiad y Cyngor i ddarparu addasiadau i'r anabl er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu aros yn annibynnol yn eu cartrefi.
- Gweithio i sicrhau'r defnydd gorau o gartrefi wedi'u haddasu ac ailgylchu cyfarpar lle bynnag y bo modd. Hefyd adolygu galw tebygol y dyfodol ar y gwasanaeth er mwyn cyfeirio trefniadau ariannu yn y dyfodol.
- Adlewyrchu dewisiadau tai ac anghenion cymdeithasol ehangach pobl hŷn yn well yn y Polisi Dyrannu Tai, gan ystyried allgáu cymdeithasol, rhwydweithiau cymorth a'r angen i aros yn eu cymunedau. Sicrhau bod y polisi'n cefnogi'r rhai sydd am symud i lety llai.
- Gweithio i ddeall yn well sut mae crefydd yn effeithio ar angen

## 6 Sicrhau y diwellir anghenion y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

- Gwella dyraniad llety pobl hŷn, gofal ychwanegol ac wedi'i addasu, gan gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am anghenion a dyheadau unigolion a sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn cael eu blaenoriaethu.
- Adolygu darpariaeth y cynlluniau tai gwarchod i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pobl hŷn yn y dyfodol ac archwilio'r cyfle i uwchraddio rhai cynlluniau tai gwarchod presennol i "Tai Gwarchod Ychwanegol" neu "Ofal Ychwanegol Ysgafn", i lefel angen uwch.
- Datblygu dulliau arloesol o wasanaethau gofal a chymorth a nyrsio sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain a darparu'r safon uchaf o gartrefi gofal i bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Archwilio'r defnydd o dechnoleg newydd ymhellach i helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi'n hwy.
- Roedd gan nifer sylweddol o bobl hŷn a oedd yn derbyn cymorth yn ôl yr angen broblemau iechyd meddwl. Byddai gwirio sampl o achosion yn y dyfodol o fudd i ddeall anghenion cymorth unigol y grŵp hwn er mwyn cyfeirio gwasanaethau yn y dyfodol.

## 7 Creu cymunedau cryfach, mwy cynhwysol a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

- Gwneud defnydd gwell o Gynlluniau Byw yn y Gymuned y Cyngor er mwyn cynnig gwasanaethau i'r gymuned ehangach, mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Darparu gwasanaeth iechyd a lles newydd, gweithio trwy'r Hybiau a chyda phartneriaid i ddatblygu digwyddiadau, gweithgareddau ac amrywiaeth o gyngor iechyd er mwyn diwallu anghenion lles pobl hŷn.
- Treialu dull newydd o ragnodi cymdeithasol, gan sicrhau bod unigolion a gweithwyr proffesiynol yn cael mynediad hawdd i wasanaethau lles yn y gymuned.
- Parhau i fod yn sefydliad sy'n deall demensia trwy sicrhau bod pob aelod o staff yr Hybiau'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyfeillion Demensia a darparu caffis a sesiynau cymorth demensia yn yr Hybiau.

# Cyd-destun Polisi Cenedlaethol




Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor. Mae'n ofyniad dan y Ddeddf i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth a darparu gwasanaethau integredig a chynaliadwy. Mae egwyddorion sylfaenol yn cynnwys cefnogi a mesur lles, llais a rheolaeth defnyddwyr gwasanaeth a ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar.




Mae nifer o ddogfennau polisi a deddfwriaethol yn fframio'r agenda tai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23** Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd bod gan bobl hŷn yr adnoddau i heneiddio'n dda, gan gynnwys mynediad i dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. I gyd-fynd â'r Strategaeth, mae'r **rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru** yn canolbwyntio ar fesurau ymarferol megis datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran ac yn cefnogi demensia, gan leihau'r perygl o gwympo a mynd i'r afael ag unigrwydd a theimlo'n ynysig.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried lles hirdymor y boblogaeth a gweithio'n gynaliadwy i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn pennu 7 nod lles cenedlaethol – mae gan dai da rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni nifer o'r rhain, gan gynnwys cyflawni Cymru iachach a Chymru â chymunedau cydlynol.




# Cyd-destun Polisi Cenedlaethol




Mae **Cynllun Gweithredu Demensia Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2018-2022** yn gosod y weledigaeth i Gymru fod yn 'wlad sy'n deall demensia sy'n cydnabod hawliau pobl â demensia i deimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi ac i fyw mor annibynnol â phosib yn eu cymunedau'.

Ystyrir bod partneriaid tai yn allweddol i helpu pobl â demensia i fyw'n annibynnol mewn modd sy'n rhoi ansawdd bywyd da. Gellir cyflawni hyn trwy gynnig amrywiaeth o ddewisiadau tai, megis tai cymorth neu gyfleusterau gofal ychwanegol a modd cael addasiadau ffisegol mewn cartrefi presennol. Dylai staff tai (gan gynnwys y rhai mewn gofal ychwanegol a llety gwarchod) gael mynediad i hyfforddiant er mwyn eu galluogi i gefnogi pobl â demensia i fyw'n dda.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a thai a chynnwys pobl â demensia, eu teuluoedd a'u gofalwyr i atgyfnerthu cydweithredu ar ymagwedd strategol at dai i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi.




Mae **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn cydnabod y rôl bwysig y gall y system gynllunio ei chwarae wrth ddarparu tai a llety pobl hŷn. Rhaid i awdurdodau cynllunio nodi digon o safleoedd sy'n addas ar gyfer amrywiaeth llawn o fathau o dai er mwyn diwallu anghenion cymunedau a nodir, gan gynnwys anghenion pobl hŷn. Rhaid i gynlluniau datblygu osod gofynion tai lleol yn glir, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl hŷn.

Mewn perthynas â dylunio, mae'n rhaid i gynigion datblygu ystyried cynhwysiant a hygyrchedd i bawb, gan gynnwys darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl hŷn. Dylai'r system gynllunio gynorthwyo hefyd wrth greu cymunedau cydlynol a fydd yn diwallu anghenion pob aelod o'r gymdeithas ac a fydd yn hygyrch bob un ohonynt.

Wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2017, mae **Ariannu Tai Cymorth**: **Datganiad Polisi ac Ymgynghoriad** Llywodraeth y DU yn gosod polisi a model ariannu arfaethedig ar gyfer tai cymorth o fis Ebrill 2020. Ni fydd cynigion blaenorol i roi 'cap' Lwfans Tai Lleol ar dai cymorth yn cael eu rhoi ar waith. Yn benodol, bydd tai cymorth a gofal ychwanegol yn parhau i gael eu hariannu trwy Fudd-dal Tai. Bydd model 'cymorth rhent' yn pennu'r terfyn uchaf ar gyfer ffioedd rhent/gwasanaethau. Mae'n ansicr hyd yma sut bydd y cynigion hyn yn effeithio ar dai pobl hŷn yng Nghymru.


# Cyd-destun Polisi Lleol





Mae **Strategaeth Datganiad Sefyllfa Farchnad a Chomisiynu: Gwasanaethau Gofal a Chymorth ar gyfer Pobl Hŷn 2017-2022** Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg yn nodi sut bydd y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill yn cydweithio i wella iechyd a lles pobl hŷn yn y rhanbarth.

Yn benodol o berthnasol mae'r amcan *'Gartre'n Gyntaf'* i 'Alluogi pobl i fyw gartref, neu mor agos at eu cartref â phosib, mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a lle gallant fyw yn dda, ffynnu ac aros yn annibynnol'.

Mae **Strategaeth Demensia Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2028** yn nodi sut bydd partneriaid ar draws y rhanbarth yn cydweithio i wella bywydau pobl â demensia a'u gofalwyr. Lluniwyd y Strategaeth ar ôl Asesiad Anghenion Demensia a digwyddiad datblygu ac mae'n galw am welliant wrth gydlynu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, trydydd sector a thai. Mae'n cydnabod rôl amgylcheddau sy'n deall demensia wrth hwyluso bywyd i bobl â demensia ac mae'n blaenoriaethu sicrhau bod pob adeilad newydd yn deall demensia, trwy weithio gyda chynllunwyr a dylunwyr. Blaenoriaeth arall yw archwilio amrywiaeth o ddewisiadau llety addas ar gyfer pobl sy'n byw â demensia, megis cynlluniau rhannu llety.




Yn fwy lleol, nododd **Strategaeth Tai Caerdydd 2016-2021** nifer o ymrwymiadau sy'n benodol i bobl hŷn, sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth hon.





Lluniwyd **Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006-2026** cyn fersiwn ddiweddaraf Polisi Cynllunio Cymru ac felly nid yw'n cynnwys targedau penodol ar gyfer darparu tai i bobl hŷn o fewn y gofyniad cyffredinol am anheddau o 41,415 o gartrefi. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun yn ceisio sicrhau y darperir amrywiaeth o feintiau a mathau o anheddau a fforddiadwyedd o ran tai marchnad a fforddiadwy i ddiwallu anghenion a nodir (gan gynnwys tai cymorth a gwarchod ac anghenion arbennig eraill lle bo'n briodol) (Polisi KP13). Mae hyn yn rhoi'r fframwaith angenrheidiol i annog cynnwys rhai tai pobl hŷn ar safleoedd datblygu addas lle bo angen. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn ceisio 'meithrin dylunio cynhwysol, gan sicrhau bod adeiladau, strydoedd a lleoedd yn hygyrch i bob defnyddiwr ac y gellir eu haddasu i newidiadau'r dyfodol mewn ffyrdd o fyw' (Polisi KP5).

Fel a nodir yng **Nghanllaw Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio** Caerdydd, mae angen cyfraniadau llai ar rai mathau o dai pobl hŷn, er enghraifft i adlewyrchu llai o alw am fannau agored gweithredol gan feddianwyr y dyfodol, neu lle mae'r fath ddatblygiadau'n creu cryn nifer o gyfleusterau cyffredinol ar y safle.

## Lleoliad Pobl Hŷn

Canran y Boblogaeth 65+ Oed fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, Ganol 2015





Dengys y map cyfagos ddosbarthiad pobl hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd, gyda'r niferoedd dwysaf yng ngogledd a gorllewin y ddinas.

Yn gyffredinol, mae 82% o boblogaeth hŷn Caerdydd sy'n 65+ oed yn berchen-feddianwyr, mae 13% yn byw yn llety'r sector rhent cymdeithasol ac mae 5% yn byw yn llety'r sector rhent preifat. Mae'r rhaniad hwn o ran deiliadaeth yn amrywio'n sylweddol o ward i ward.

## Amcangyfrifon Poblogaeth

Roedd pobl 30 oed a hŷn yn ffurfio 30% o boblogaeth gyfan Caerdydd yn 2016. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn (50+ oed) yng Nghaerdydd yn cynyddu 26% dros yr 20 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd yn amrywio'n fawr fesul grŵp hŷn, fel a ddangosir isod:

Mynegai Amcangyfrifon Poblogaeth 50+ Oed Caerdydd fesul Ystod Oedran Bras, 2017-2037 (2017 = 100.0)




- Bydd **cynnydd 4% yn y rhai 50-64 oed** o 58,300 i 60,800 o bobl;
- Bydd **cynnydd 42% yn y rhai 65-84 oed** o 43,900 i 62,400 o bobl;
- Bydd **cynnydd 94% yn y rhai 85 oed** o 7,600 i 14,700 o bobl.

# Poblogaeth Hŷn Caerdydd

## Anghenion Gofal a Chymorth


Mae disgwyliad oes yn cynyddu yng Nghaerdydd. Ar yr un pryd, disgwylir i amrywiaeth o gyflyrau sy'n

| Nifer Amcangyfrifol y Bobl 65+ Oed yng Nghaerdydd | | | |
|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | | Cynnydd |
| Cyflwr Iechyd | 2015 | 2035 | |
| Salwch cyfyngus hirdmor | 17,811 | 27,525 | 55% |
| Gordewdra | 10,704 | 15,989 | 49% |
| Diabetes | 7,925 | 12,253 | 55% |
| Demensia | 3,598 | 6,012 | 67% |
| Yn Ymwneud â Gofal | | | |
| Methu cyflawni o leiaf 1 gweithgaredd symudedd | 9,374 | 15,076 | 61% |
| Methu cyflawni o leiaf 1 dasg ddomestig | 20,619 | 32,677 | 58% |
| Methu cyflawni o leiaf 1 gweithgaredd symudedd | 16,945 | 26,770 | 58% |

*Ffynhonnell: Daffodil Cymru (2017).*

## Demensia

Rhagfynegir y bydd cyfanswm nifer y bobl 65+ oed yng Nghaerdydd â demensia yn cynyddu 67% rhwng 2015 a 2035. Bydd y cynnydd hwn yn codi i 85% yn achos y rhai 85+ oed, fel a ddangosir gyferbyn.




*Ffynhonnell: Daffodil Cymru (2017).*

## Eiddilwch

Mae eiddilwch yn gysylltiedig yn gyffredin â heneiddio. Mae pobl sy'n eiddil yn profi gwendid corfforol; yn aml mae ganddynt gyflyrau meddygol cymhleth a llai o allu i fyw'n annibynnol ac mae angen cymorth arnynt i gyflawni tasgau pob dydd.

Yn ôl ymarfer modelu a gynhaliwyd yn 2015 ac ar sail eiddilwch, bydd y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth yn cynyddu 25% yng Ngogledd a Gorllewin Caerdydd a 18% yn Ne a Dwyrain Caerdydd rhwng 2014 a 2024.

## Canfyddiadau

- Erbyn 2037 bydd nifer y bobl sy'n 65-84 oed yn cynyddu'n sylweddol o 43,900 i 62,400 (42%), tar bydd y rheiny 85+ oed bron yn dyblu o 7,600 i 14.700. Mae'r cynnydd sydyn amcangyfrifol yn y grŵp 85+ oed a'r cynnydd parhaol yn y rheiny 65-84 oed yn debygol o arwain at fwy o bobl â'r angen am lety neu gymorth arbenigol na ellir eu darparu yn eu cartrefi cyfredol.

- Mae disgwyliad oes cynyddol yn arwain at nifer uwch o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran a chyfyngiadau symudedd. Amcangyfrifir y bydd cymorth ar gyfer hunanofal a thasgau domestig yn cynyddu'n sylweddol.

- Rhagfynegir y bydd nifer y bobl yng Nghaerdydd â demensia yn cynyddu 67% ymhlith y rheiny 65+ oed ac 85% yn achos y rheiny 85+ oed rhwng 2015 a 2035.

- Bydd y newid hwn yn rhoi pwysau mawr ar wasanaethau a chyllidebau gofal cymdeithasol ac mae angen cynyddu buddion ataliol tai a gwneud y defnydd gorau o lety arbenigol.

# Mathau o Dai i Bobl Hŷn

## Tai Gwarchod

Fel arfer mae cynlluniau'n cynnig llety hunangynhwysol, a gefnogir fel arfer gan reolwr cynllun rhan-amser/ymweliadol a chymorth brys 24 awr trwy larwm. Yn aml ceir ardaloedd cymunedol a threfnir rhai gweithgareddau. Cynigir y rhan fwyaf o lety i'w rentu, ar sail angen, gan y Cyngor neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

## Tai Ymddeol y Sector Preifat

Fel arfer caiff tai ymddeol y sector preifat eu hadeiladu gan ddatblygwyr preifat neu, mewn rhai achosion, gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ar ôl gwerthu'r holl eiddo, caiff y cynllun ei reoli fel arfer gan gwmni rheoli ar wahân sy'n cyflogi'r rheolwr cynllun ac yn trefnu gwasanaethau cynnal a chadw ac eraill.

## Tai Gofal Ychwanegol (Tai â Gofal)

Cyfeirir yn aml at hyn fel 'byw â chymorth' pan gaiff y llety ei ddarparu gan ddarparwyr sector preifat. Fe'i dyluniwyd wrth ystyried anghenion pobl hŷn, y mae gan rai ohonynt lefelau uwch o ofal a chymorth. Mae cynlluniau gofal ychwanegol yn darparu llety hunangynhwysol, cwbl hygyrch gyda mynediad i gymorth gofal domestig a gofal personol 24 awr, cyfleusterau cymunedol ac ystafelloedd gweithgareddau ar y safle. Mae gan fflatiau unigol ystafelloedd ymolchi a cheginau â mynediad gwastad, larymau argyfwng a thechnoleg gynorthwyol arall fel nodweddion safonol. Mae gan y rhan fwyaf o gynlluniau feini prawf cymhwysedd.

## Tai Preswyl

Lleoliad preswyl lle mae pobl hŷn yn byw ac yn gallu manteisio ar wasanaethau gofal a chymorth i fodloni eu gofynion gofal personol a aseswyd.

## Cartrefi Nyrsio

Lleoliad preswyl ar gyfer pobl hŷn sy'n darparu gofal a chymorth arbenigol i bobl nad yw eu hanghenion gofal personol yn gallu cael eu diwallu gan gartref preswyl.

## Tai Cymdeithasol Oedran Penodol

Fel arfer fflatiau neu fyngalos lle mae'r holl denantiaid dros oedran penodol (fel arfer yn 50-55 oed yn achos fflatiau ac yn 60 oed yn achos byngalos). Nid oes unrhyw staff ar y safle (felly dim swyddog cymorth) ac fel arfer nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u trefnu. Fodd bynnag, gallant gynnwys lolfa gymunedol.

# Sut Gall Tai Helpu? Canfyddiadau Allweddol yr Ymchwil

Amlygodd adolygiad o ymchwil bresennol o dai a chymorth pobl hŷn nifer o ganfyddiadau allweddol sydd wedi cyfeirio datblygiad y Strategaeth hon.

Mae **buddion iechyd a lles tai addas ar gyfer pobl hŷn** wedi'u cofnodi'n glir, gydag arbedion cysylltiedig posibl i gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, gall tai sydd wedi'u dylunio'n dda helpu i atal pobl rhag cwympo, lleihau'r angen am ofal personol a chynorthwyo pobl i adael yr ysbyty. Gall llety hygyrch mewn lleoliad da cynorthwyo gydag annibyniaeth a symudedd, gan helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae'r ymchwil hefyd yn cadarnhau rôl **'tai â gofal' mwy arbenigol wrth leihau neu oedi'r angen am ofal preswyl**.

Canfyddiad cyson yw'r angen i **asesu a deall anghenion a gofynion tai pobl hŷn yn gynhwysfawr** fel y sail ar gyfer dewisiadau llety a darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hefyd **rôl ar gyfer gwybodaeth a chyngor amserol a chynhwysfawr ynglŷn â thai** i alluogi pobl hŷn i wneud dewisiadau gwybodus a chynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol. Mae ymchwil yn pwysleisio **effaith gadarnhaol cymorth ymarferol, cymhorthion a gwasanaethau addasu** wrth hyrwyddo byw'n annibynnol a galluogi pobl hŷn i aros gartref neu symud i lety mwy addas.

Nodir bod gan **lawer o gynlluniau tai pobl hŷn gysylltiadau cryf â'u hardal leol**, gan greu canolbwynt ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau sy'n fuddiol i breswylwyr a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae lle i fanteisio ymhellach ar y cyfleoedd a gynigir gan gyfleusterau cymunedol. Mae **pwysigrwydd amodau cymdogaeth ehangach a chyfleusterau ac amwynderau lleol** i les pobl hŷn wedi'i gydnabod yn llawn.

**Mae stoc tai presennol ar gyfer pobl hŷn yn adnodd pwysig.** Fodd bynnag, mae angen asesu a yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas at y diben, fel rhan o ymagwedd strategol at fuddsoddi neu ddadfuddsoddi. **Mae gan dai newydd eu hadeiladu (boed yn ddatblygiadau cymdeithasol neu'n breifat) ran i'w chwarae wrth gynyddu cyflenwad a dewis.** Mae rôl ar gyfer polisïau a chanllawiau cynllunio cryfach a chliriach wrth hwyluso amrywiaeth ehangach o dai i bobl hŷn ac ar gyfer safonau dylunio mwy uchelgeisiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth (megis Tai Gydol Oes, HAPPI) i ddarparu tai 'cynaliadwy yn ôl oedran' ar draws pob deiliadaeth.

## Canfyddiadau

Mae'r canfyddiadau o ymchwil amrywiol yn dangos yr angen am ofal preswyl, gydag arbedion cysylltiedig i gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Buddion Cymharol Tai ar gyfer Pobl Hŷn

Mae awydd cyffredinol ymhlith pobl hŷn i aros yn annibynnol gartref. Gall tai parod ar gyfer gofal, gwarchod a gofal ychwanegol helpu i gynnal pobl i fyw'n annibynnol am amser hwy ac atal yr angen am ofal preswyl.

Gall tai parod ar gyfer gofal a thai gwarchod fod yn llety sy'n addasu i anghenion pobl hŷn i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth, gan alluogi'r rhai â phroblemau symudedd ddygymod heb ofal am gyfnod hwy. Gall cynlluniau parod ar gyfer gofal sy'n cael eu dylunio'n briodol alluogi'r rhai ag anghenion gofal aros yn eu cartrefi yn hwy gyda'r defnydd effeithiol o ofal cartref.

Wedi'u dylunio i hyrwyddo byw'n annibynnol, gall tai gofal ychwanegol yn benodol gefnogi'r rhai ag anghenion gofal sylweddol i gadw eu hannibyniaeth. Mae'r model yn seiliedig ar eiddo hygyrch, hunangynhwysol sy'n cynnig tenantiaethau unigol neu ddewisiadau perchentyaeth. Gall helpu i gadw cyplau ynghyd ac atal y pryderon sy'n codi ynghylch colli perchentyaeth. Mewn rhai achosion, mae'r gallu i ddarparu gofal i breswylwyr yn eu cartrefi eu hunain yn gallu cael gwared ar yr angen am ofal preswyl. Gall y math hwn o dai hefyd fod yn ddull llawer mwy cost-effeithiol o ddarparu gofal na llety preswyl os caiff ei ddefnyddio'n briodol, fel a ddangosir yn y tabl isod:

| Cost Wythnosol Cyfartalog Gofal Preswyl Cyffredinol ar gyfer Pobl 65+ Oed | Cyfanswm cost cyfartalog yr wythnos am dai gofal ychwanegol |
|---|---|
| **£631.33** | **£364.42** |

Dengys cymhariaeth o gost gofal preswyl cyffredinol ar gyfer pobl 65+ oed a thai gofal ychwanegol fod tai gofal ychwanegol, ar gyfartaledd, yn 57% o gost wythnosol gofal preswyl. Mae'r gymhariaeth hon o'r costau'n rhagdybio proffil cyfatebol o anghenion gofal unigolion sy'n defnyddio tai gofal preswyl a thai gofal ychwanegol, nad yw bob amser yn wir, a bydd angen targedu gofalus er mwyn osgoi'r defnydd o ofal preswyl.

## Canfyddiadau

Ar gyfartaledd mae cost tai Gofal Ychwanegol yn 57% o gost wythnosol gofal preswyl.

# Deall yr Angen am Dai

## Y Ddarpariaeth Bresennol a Galw'r Dyfodol

### Asesu Tai a Llety Pobl Hŷn

Yn ystod 2018 comisiynodd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg ymchwil annibynnol i nodi gofynion tai a gofal cysylltiedig pobl hŷn ar draws y rhanbarth yn y dyfodol ac i gyfeirio rhaglenni buddsoddi cyfalaf mewn tai yn y dyfodol. Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan The Housing Learning and Improvement Network (LIN), rhwydwaith sy'n dod â gweithwyr proffesiynol tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr ynghyd i ddangos atebion tai arloesol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.




Roedd yr ymchwil hon yn adolygu'r tai a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal ag anghenion gofal a chymorth y rhai sy'n byw mewn llety pobl hŷn neu sydd ar y rhestr aros am hwn a threfniadau mynediad presennol. Ymgysylltwyd â phreswylwyr ar ffurf arolwg a grwpiau ffocws er mwyn nodi'r amcanion sy'n bwysig o bobl yn eu henaint. Cafodd galw'r boblogaeth yn y dyfodol ei fodelu i argymell nifer, lleoliad a math o dai y byddai eu hangen dros yr 20 mlynedd nesaf, ynghyd â manylebau ar gyfer pob math o lety.

# 2018 Arolwg Pobl Hŷn

## Y Sefyllfa Bresennol o ran Tai

504 o ymatebion gan bobl 50+ oed gan gynrychioli poblogaeth hŷn amrywiol Caerdydd




Roedd 14% o ymatebwyr eisoes wedi symud am resymau oedd yn ymwneud ag oedran:

- **50%** Wedi symud i gartref llai
- **34%** Wedi symud i gartref mwy hygyrch
- **33%** Wedi symud i fod yn agosach at ganol tref

### Mae'r addasiadau arfaethedig neu a wnaed i gartrefi presennol yr ymatebwyr yn cynnwys:

- Ystafell Ymolchi 23%
- Rheiliau Gafael 22%
- Gwella Hygyrchedd 9%
- Gosod Lifftiau/ Lifftiau Grisiau 8%

Mae **44%** o'r ymatebwyr yn ystyried symud yn y dyfodol.

### Y Prif Resymau am Ystyried Symud:

- Symud i gartrefi llai 40%
- Symud i gartref mwy hygyrch 25%
- Cael mynediad i wasanaethau gofal 15%
- Bod yn agosach at y teulu a ffrindiau 17%

# Mathau o Dai

Roedd ymatebwyr a oedd yn ystyried symud yn nodi eu dewis o'r mathau canlynol o dai:

46% Byngalo

29% Tŷ

21% Fflat

Nodydd **58%** y byddai'n well ganddynt symud i eiddo ag o leiaf 2 ystafell wely

Nododd **10%** y byddai'n well ganddynt symud i eiddo ag o leiaf 1 ystafell wely

Nodydd **29%** y byddai'n well ganddynt symud i eiddo ag o leiaf 3 ystafell wely

**Y rhai a oedd yn ystyried symud y byddai'n well ganddynt dŷ penodol ar gyfer pobl hŷn du:**

Byddai **45%** o'r rhai sy'n rhentu yn ystyried symud i dŷ penodol ar gyfer pobl hŷn




Byddai **23%** o berchnogion tai yn ystyried symud i dŷ penodol ar gyfer pobl hŷn



### Tai Presennol ar gyfer Pobl Hŷn

Caiff y llety presennol a ddarperir ar gyfer pobl hŷn ei ddadansoddi yn ôl lleoliad, math a deiliadaeth fel a ganlyn:

| Llety Presennol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghaerdydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau | Tai gwarchod (unedau) | Tai ymddeol preifat (unedau) | Tai gofal ychwanegol i'w rhentu (unedau) | Tai gofal ychwanegol i'w werthu (unedau) | Cartref gofal preswyl (gwelyau) | Cartref gofal nyrsio (gwelyau) |
| Dinas | 247 | 0 | 0 | 0 | 123 | 49 |
| Dwyrain | 143 | 70 | 15 | 0 | 91 | 188 |
| Gogledd | 398 | 380 | 102 | 110 | 257 | 221 |
| De-ddwyrain | 437 | 83 | 0 | 0 | 70 | 180 |
| De-orllewin | 372 | 107 | 0 | 0 | 122 | 200 |
| Gorllewin | 250 | 382 | 40 | 0 | 48 | 213 |
| **Cyfanswm** | **1847** | **1022** | **157** | **110** | **711** | **1051** |

Darperir tai gwarchod ar hyd a lled y ddinas ond yn benodol yn y de-ddwyrain, y gogledd a'r de-orllewin. Darperir 82% o dai gwarchod gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a 18% gan y Cyngor. Darperir y rhan fwyaf o dai ymddeol rhent yn y gogledd a'r gorllewin, gyda gweithredwyr preifat yn darparu 69% o unedau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu ac yn berchen ar 31% o dai ymddeol lesddeiliad.

Mae 157 o unedau llety â gofal ('gofal ychwanegol') rhent cymdeithasol, gyda'r nifer mwyaf yn y gogledd a'r gorllewin, a 110 o unedau llety preifat ('byw â chymorth') yn y gogledd. Ceir 55% o welyau gofal preswyl yn y gogledd, yng nghanol y ddinas ac yn y de-orllewin, a cheir 60% o welyau gofal nyrsio yn y gogledd, y gorllewin a'r de-orllewin.

Yn ogystal â'r llety a nodir uchod, mae 1,423 uned arall o dai oedran penodol a ddarperir gan y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r rhain yn gymysgedd o fflatiau a byngalos, ar wasgar ledled y ddinas.

Yn gyffredinol mae amrywiaeth o dai rhent cymdeithasol ac ymddeol preifat ar gyfer pobl hŷn yn y ddinas. Tai gwarchod a thai oedran penodol yw'r mathau mwyaf cyffredin o dai ar gyfer pobl hŷn yn y sector rhent cymdeithasol. Hefyd ceir cymysgedd o dai ymddeol preifat ar gyfer grwpiau cydraddoldeb ac incwm gwahanol; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn brin y tu allan i ogledd a gorllewin y ddinas.

Mae prinder tai gofal ychwanegol/tai â darpariaeth gofal o'u cymharu â nifer y gwelyau gofal preswyl. Mae hyn yn cyfyngu ar

y gostyngiadau costau y gellid eu gwneud gan y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd trwy wneud defnydd gwell o'r math hwn o lety.

Mae cyflwr presennol y stoc o dai cymdeithasol o ran llety gwarchod ac oedran penodol yn ansicr mewn sawl achos ac nid yw'n glir pa hygyrchedd a chyfleusterau a gynigir yn yr eiddo hyn.

Er bod rhai cynlluniau tai gwarchod yn gallu cynnig y cyfle i ddarparu mwy o wasanaethau i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac yn gynyddol eiddil, gallai fod angen gwaith sylweddol ar eraill er mwyn iddynt barhau i ddarparu llety i bobl hŷn.

Dim ond tua 20% o'r unedau presennol ar gyfer pobl hŷn yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae tua 50% o gynlluniau heb lifftiau. Mae'r cynnydd mewn anghenion symudedd a gofal yn awgrymu y bydd angen cynyddol am unedau sydd wedi'u haddasu ar gyfer cadeiriau olwyn ac sy'n cynnwys lifftiau.

Mae angen mwy o waith i ddeall yn llawn pa mor dda mae tai cymdeithasol presennol yn diwallu anghenion pobl hŷn.

## Canfyddiadau

- Yn gyffredinol mae amrywiaeth o dai rhent cymdeithasol ac ymddeol preifat ar gyfer pobl hŷn yn y ddinas.
- Hefyd ceir cymysgedd o dai ymddeol preifat ar gyfer grwpiau cydraddoldeb ac incwm gwahanol; fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn brin y tu allan i ogledd a gorllewin y ddinas.
- Mae prinder tai gofal ychwanegol/tai â darpariaeth gofal o'u cymharu â nifer y gwelyau gofal preswyl. Mae'r prinder cyflenwad hwn yn cyfyngu ar y gostyngiadau costau posibl y gellir eu gwneud ar gyfer comisiynwyr gofal cymdeithasol a chymorth.
- Mae ansicrwydd am gyflwr tai presennol ar gyfer pobl hŷn yn y sector cymdeithasol a'r cyfleusterau sydd ar gynnig. Mae angen gwneud mwy o waith i ddeall pa mor dda mae'r eiddo hyn yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth hŷn yn y dyfodol.

# Deall yr Angen am Dai

## BYDDWN YN:

**Ceisio sicrhau rhagor o gost-effeithiolrwydd trwy gyflenwi tai i bobl hŷn a helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth am gyfnod hwy trwy:**

- Gynyddu nifer y cartrefi gofal ychwanegol a ddarperir, a defnyddio'r rhain fel dewis arall uniongyrchol i'r defnydd o welyau gofal preswyl cyffredinol.
- Cynyddu'r cyflenwad o dai 'parod ar gyfer gofal' i bobl hŷn sy'n addas ar gyfer heneiddio yn y lle ac sy'n galluogi darparu gofal cartref yn ôl yr angen.
- Adolygu addasrwydd tai presennol ar gyfer pobl hŷn ac ystyried y cyfle i rai cynlluniau tai gwarchod (er enghraifft, y rhai sydd â safonau lle ehangach, sy'n fwy o ran maint a/neu sydd â nifer cymharol uchel o denantiaid y mae ganddynt becynnau gofal cartref) i fod yn wasanaethau tai â gofal.

### Amcangyfrif o Angen y Dyfodol

Fel rhan o'r ymchwil gan y Housing LIN, gwnaed amcangyfrif o'r angen am lety i bobl hŷn yn y dyfodol.. Mae hwn yn seiliedig ar newid demograffig a amcangyfrif o'r twf yn y boblogaeth hyd at 2035, ac mae'n gweithio ar ragdybiaeth o angen cynyddol am dai â gofal dros amser yn gwbl gymesur â gostyngiad tybiedig yn y defnydd o ofal preswyl. Mae'r ymchwil yn amcangyfrif yr angen am dai a llety i bobl hŷn yn y dyfodol, yn ogystal â'r ddarpariaeth bresennol, fel a ganlyn:


| Yr Angen am Lety Ychwanegol i Bobl Hŷn yng Nghaerdydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau | Tai gwarchod (unedau) | Tai ymddeol preifat (unedau) | Tai gofal ychwanegol i'w rhentu (unedau) | Tai gofal ychwanegol i'w werthu (unedau) | Cartref gofal nyrsio (gwelyau) |
| Dinas | 22 | 131 | 39 | 19 | 30 |
| Dwyrain | 89 | 44 | 55 | 34 | 117 |
| Gogledd | 19 | 466 | 13 | 124 | 138 |
| De-ddwyrain | -15 | 339 | 36 | 36 | 112 |
| De-orllewin | 149 | 149 | 63 | 31 | 125 |
| Gorllewin | 89 | 305 | 26 | 133 | 133 |
| **Cyfanswm** | **353** | **1434** | **232** | **377** | **655** |

Yn ôl yr ymchwil, mae nifer y tai gwarchod a ddarperir ar hyn o bryd yn Ne-ddwyrain Caerdydd yn ddigonol ac yn 15 uned yn fwy na'r amcangyfrif o angen yn y dyfodol hyd at 2035.

Mae nifer y tai gwarchod yn y de-ddwyrain ar hyn o bryd yn uchel o'i gymharu â rhannau eraill o'r ddinas, gyda'r rhan fwyaf yn stoc Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.  Mae nifer y bobl dros 65 oed yn yr ardal hon yn gymharol isel (dan 30%) a dengys amcangyfrifon poblogaeth fod y cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn yr ardal hon hefyd yn is o'i gymharu â rhannau eraill o'r ddinas.

# Deall yr Angen am Dai

Dengys y graff canlynol y ddarpariaeth tai a llety bresennol ar gyfer pobl hŷn o'i chymharu




Amcangyfrifwyd y bydd yr angen am dai gwarchod/dai ymddeol preifat cyfoes yn cynyddu'n sylweddol erbyn 2035 oherwydd y twf a amcangyfrifir yn y boblogaeth hŷn, a bydd angen y cynnydd mwyaf yn y sector preifat.

Amcangyfrifir y bydd angen sylweddol am dai â gofal (tai gofal ychwanegol a byw â chymorth). Mae hyn yn cyson â'r amcanion polisi i leihau'r defnydd amhriodol o ofal preswyl hirdymor a dwysach a darparu amrywiaeth o ddewisiadau tai a llety sy'n galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r cynnydd o ran tai a amcangyfrifir yn adlewyrchu'r gofyniad am opsiynau symud i lety llai ym mhob deiliadaeth er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn sy'n berchen-feddianwyr yn ogystal â phobl hŷn sydd am rentu neu brynu'n rhannol.

Mae'r angen cynyddol a amcangyfrifir yn y ddarpariaeth gofal nyrsio yn adlewyrchu nifer cynyddol y bobl hŷn a'r dystiolaeth o gynnydd yn anghenion gofal personol y boblogaeth hŷn yn y dyfodol e.e. nifer cynyddol y bobl hŷn sy'n byw â demensia a/neu gyflyrau cronig.

## Canfyddiadau

Amcangyfrifir bod angen am **3,051** o unedau llety pobl hŷn ychwanegol erbyn 2035. Dadansoddir y cynnydd hwn fel a ganlyn:


- Tai pobl hŷn
  (Tai Parod ar gyfer Gofal/ Tai Gwarchod a Thai Ymddeol Preifat)
  **1787 o unedau**
  **(353 rhentu**
  **1434 perchentyaeth)**
- Gofal Ychwanegol/Tai â Gofal
  **609 o unedau**
  **(232 rhentu, 377 perchentyaeth)**
- Gofal Preswyl
  **0 gwely**
- Gofal Nyrsio
  **655 o welyau**

# Deall yr Angen am Dai

## Barn a Safbwyntiau Pobl Hŷn

Roedd 77% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg pobl hŷn yn berchnogion tai.  Roedd 15% o'r ymatebwyr yn rhentu o naill ai cymdeithas dai neu awdurdod lleol ac roedd 7% yn rhentu'n breifat. Nododd 28% o'r ymatebwyr eu bod yn bwriadu symud o fewn y 5 mlynedd nesaf; fodd bynnag, ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn rhentu, y ffigur cyfatebol oedd yn uwch, sef 40%.

Y prif resymau dros ystyried symud a nodir y rhain yn y siart isod:-




### Mathau o Dai

Roedd cryn nifer o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol llawer o blaid symud i fyngalo (46%), yn sylweddol uwch na'r rhai a oedd yn ffafrio symud i dŷ (29%) neu i fflat (21%).

Ymhlith yr holl ymatebwyr a oedd yn ystyried symud, roedd yn well ganddynt symud i eiddo ag o leiaf 2 ystafell wely (58%) o'i gymharu ag un ystafell wely (10%).  Roedd 29% o'r ymatebwyr am symud i eiddo â 3 ystafell wely. Mae hyn yn cadarnhau canfyddiadau ymchwil gyhoeddedig arall na fydd y rhan fwyaf o bobl hŷn yn cael eu denu i eiddo llai oni bai bod ganddo o leiaf 2 ystafell wely.

Gall symud i eiddo llai, yn benodol o dai cymdeithasol, ryddhau cartref teulu mawr eu hangen wrth ddarparu llety mwy cynaliadwy i bobl hŷn. Gallai mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu tai cymdeithasol pobl hŷn, yn benodol o ran nifer yr ystafelloedd gwely, gynyddu nifer y bobl sy'n symud i eiddo llai.

### Tai Penodol ar gyfer Pobl Hŷn

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedd yn ystyried symud cartref a fyddai'n well ganddynt fyw mewn llety penodol ar gyfer pobl hŷn. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn rhentu eu cartref, byddai tua 45% yn ystyried symud i dai oedran penodol, yn sylweddol uwch na'r ffigur ymhlith perchnogion tai, a oedd tua 23%.

### Canfyddiadau

Roedd 28% o'r bobl a holwyd yn cynllunio symud o fewn y 5 mlynedd nesaf gyda'r rhan fwyaf yn awyddus cael eiddo â 2 ystafell wely (58%). Roedd llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn fwy poblogaidd ymhlith y rhai a oedd yn rhentu na'r rhai oedd yn berchen ar eu cartref eu hunain.

# Ateb Galw'r Dyfodol

## Dysgu o Arfer Da

Dengys yr enghreifftiau canlynol o arfer da sut mae darparwyr tai eraill yn datblygu ffyrdd arloesol ac effeithiol o ddarparu tai a chymorth priodol i bobl hŷn.

### Pentref Ymddeol

**St Monica Trust**

Monica Wills House

Bedminster



Cymuned ymddeol ddinesig sy'n darparu fflatiau, gerddi to, bwyty a gweithgareddau/digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer preswylwyr.

Bydd tîm gofal ar y safle yn darparu cymorth o ran cadw cwmni, paratoi prydau neu ddiwallu anghenion mwy cymhleth.

Mae gweithgareddau'n amrywio o gerdded i gwrlo oes newydd yn ogystal ag achlysuron cymdeithasol a chynlluniau cyfeillio gwirfoddolwyr.

### Tai demensia penodol a llety â gofal

**Cymdeithas Tai Wales and West**

Llys Jasmin

Yr Wyddgrug

Fflatiau a byngalos gofal ychwanegol yn ogystal â llety sydd wedi'i addasu'n benodol ar gyfer pobl â demensia.

- Gofal 24 awr ar y safle a ddarperir gan Gyngor Sir y Fflint.
- Ardaloedd bwyty a lolfa gan gynnwys ystafelloedd i westeion
- Gweithgareddau cymunedol rheolaidd ar y safle



## Tai Prif Ffrwd gan gynnwys Cartrefi Gydol Oes/ wedi'u Haddasu ar gyfer Cadeiriau Olwynion

**Cymdeithas Tai Habinteg**

Goodrich Court

Hounslow

Cynllun Tai Manyleb Uchel o Gartrefi Gydol Oes ac eiddo sy'n hygyrch i gadeiriau olwynion sydd wedi'u dylunio i fodloni gofynion cynhwysol y boblogaeth sy'n heneiddio. Gall pobl abl ac anabl gyd-fyw fel cymdogion.



## Tai gwarchod/ymddeol cyfoes sy'n 'barod ar gyfer gofal'

**Cyngor Dinas Birmingham**

Byngalos 'maint iawn'



Tai newydd â deiliadaethau cymysg i bobl hŷn sydd am symud i eiddo llai.

Wedi'u dylunio i egwyddorion HAPPI

Yn Barod ar gyfer Gofal

Mae'r dyluniad yn hyrwyddo lles

Defnydd helaeth o dechnoleg trwy'r eiddo er mwyn cefnogi ffyrdd o fyw ac anghenion gofal.

## Adolygu Llety Presennol

Fel a nodwyd yn flaenorol, mae amrywiaeth o lety presennol ar gyfer pobl hŷn ac mae hyn yn adnodd sylweddol. O ystyried y galw cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio, mae achos cryf dros wneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, gan fod tua 50% o stoc pobl hŷn ar draws Caerdydd a'r Fro yn fwy na 30 oed, mae'r angen i adolygu ei addasrwydd i ddiwallu anghenion presennol ac yn y dyfodol yn amlwg.

### ASTUDIAETH ACHOS – Byw yn y Gymuned Llys Sandown

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu cyfadeilad tai gwarchod Llys Sandown ym mis Mai 2017. Mae'r prif nodweddion yn cynnwys:

- Fflatiau llawr gwaelod cwbl hygyrch i gadeiriau olwynion gyda choridorau mwy llydan, ystafelloedd gwlyb a cheginau ag uchder y gellir ei addasu.
- Rhagor o fflatiau llawr uchaf hygyrch, gydag ystafelloedd cawod mawr a mwy o le.
- Nodweddion 'cyfeirio' ar gyfer pobl â demensia.
- Cydymffurfiaeth â safonau golwg tai yr RNIB.
- Lle allanol hygyrch wedi'i adnewyddu.
- Lleoedd cymunedol hyblyg wedi'u hadnewyddu, gan gynnwys ystafell feddygol, sy'n galluogi partneriaid a darparwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r adeilad wrth gydnabod bod y cynllun yn lleoliad cartref.

## Adnewyddu Cynlluniau Tai Gwarchod y Cyngor

Cynhaliwyd adolygiad 'addas at y diben' o stoc tai gwarchod y Cyngor, a oedd yn ystyried cyflwr, lleoliad, hygyrchedd ffisegol ac agosrwydd at wasanaetha/gyfleusterau. Nododd yr adolygiad fod llawer o'r cynlluniau tai gwarchod wedi dyddio â gosodiad gwael, ac roedd nifer uchel o fflatiau un ystafell a mannau cymunedol heb fawr o ddefnydd arnynt. Fodd bynnag, roedd y cynlluniau mewn lleoliad da yn agos at gyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae rhaglen adnewyddu wedi dechrau ar draws stoc tai gwarchod y Cyngor i ddarparu cartrefi hyblyg, hygyrch a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion pobl hŷn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Wedi'u hail-frandio'n 'Byw yn y Gymuned', bydd y cynlluniau hyn yn:

- cynnig cartrefi sy'n ddiogel ac yn addas at y diben;
- bodloni'r safonau dylunio cyfredol, gan gynnwys nodweddion ar gyfer pobl â nam ar y golwg a'r rhai â demensia;
- darparu ardal lolfa cynllun agored a mwy o le storio, lle bo modd;
- cynnig lle cymunedol hyblyg, gan ddarparu hyb gwasanaethau i bobl hŷn sy'n byw yn y cynllun a'r gymuned ehangach;
- helpu i oresgyn unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.



Llys Sandown

# Ateb Galw'r Dyfodol

## Adnewyddu Cynlluniau Tai Gwarchod Eraill

Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru wedi cychwyn ar gynllun pum mlynedd i ddiweddaru eu holl dai gwarchod ar gyfer pobl hŷn hyd safonau modern. Mae'r gwaith i adnewyddu eu cynllun yn Llys Ifor Jones yn Llanedern wedi hen ddechrau a disgwylir ei gwblhau ym mis Mawrth 2019. Mae'r gwaith wedi cynnwys adnewyddu pob ardal gymunedol gan osod lloriau newydd ynghyd â chelfi a dodrefnu newydd. Mae'r addurniadau a'r goleuadau yn y mannau cymunedol hefyd wedi cael eu hadnewyddu hyd safonau'r RNIB.

Rhoddwyd sylw arbennig i ddiogelwch gyda drysau tân newydd yn cael eu gosod trwy'r cynllun yn ogystal â system mynediad drysau panel i bob fflat. Mae'r ardaloedd allanol wedi cael eu hadnewyddu ac mae storfa sgwteri wedi cael ei hadeiladu. Bydd cam olaf y gwaith yn cynnwys gosod lifft a rhwydwaith WiFi trwy'r cynllun cyfan.

## Fflatiau a Byngalos Oedran Penodol

Yn ôl adolygiad 'addas at y diben' o stoc pobl hŷn y Cyngor, nid oes mynediad gwastad gan tua 50% o fyngalos oedran penodol a 58% o fflatiau. Caiff yr unedau llety hyn eu hasesu pan fo'r denantiaeth yn newid a bydd gwaith yn cael ei wneud i wella hygyrchedd lle bynnag y bo modd.

## BYDDWN YN:

- Parhau i adnewyddu stoc tai gwarchod y Cyngor fesul cynllun. Sicrhau achrediad RNIB ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u hadnewyddu.
- Adolygu pob eiddo 'oedran penodol' y Cyngor pan fo'r denantiaeth yn newid ac ymgymryd â gwaith i wella hygyrchedd lle bynnag y bo modd.
- Gweithio gyda phartneriaid LCC i ddeall cyflwr tai presennol y ddinas ar gyfer pobl hŷn yn well yn ogystal â'r defnydd ohonynt yn y dyfodol.

## Datblygu Llety Ychwanegol

### Datblygu Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy

#### Ymateb i'r Dystiolaeth

Bydd datblygu llety ychwanegol yn unol â'r angen a nodir yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr Adran Cynllunio, darparwyr tai cymdeithasol a datblygwyr y farchnad agored.

#### Darparu Tai Cymdeithasol Newydd

Mae'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner yn ymrwymedig i barhau i ddarparu tai fforddiadwy newydd i ddiwallu'r angen, gan gynnwys llety penodol ar gyfer pobl hŷn a llety hygyrch/hyblyg sy'n galluogi 'heneiddio yn y lle'. Mae cynllun datblygu wedi cael ei baratoi i leihau'r bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw. Bwriedir adeiladu tua 700 o unedau llety fforddiadwy ar gyfer pobl hŷn rhwng 2020 a 2030. Bydd y rhaglen ddatblygu'n adeiladu cynlluniau Byw yn y Gymuned pwrpasol, hygyrch a chynaliadwy a fydd yn darparu 'cartref am oes' i alluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol.  Mae manyleb wedi cael ei datblygu ar gyfer cynlluniau cyngor newydd a fydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Darparu cartref hyblyg, y gellir ei addasu yn unol ag anghenion newidiol person gan leihau'r angen am addasiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys drysau mwy llydan, ystafelloedd cawod gwastad, ardal lolfa/ fwyta cynllun agored, mwy o le storio, mynediad uniongyrchol (lle bo modd) o'r ystafell ymolchi i'r ystafell gawod a mynediad i le allanol.
- Darparu fflatiau mwy o faint a fydd yn denu pobl sydd am symud i eiddo llai, gan ryddhau cartrefi teulu mwy i'w rhentu.

**Egwyddorion HAPPI**

Mae egwyddorion HAPPI yn seiliedig ar 10 maen prawf dylunio allweddol ac maent yn arbennig o berthnasol i'r ystod o dai pobl hŷn y mae angen iddynt gynnig dewis deniadol arall i'r cartref teulu gyda modd i'w addas dros amser i ddiwallu anghenion newidiol.

Maent yn adlewyrchu:

- Lle a hyblygrwydd
- Golau dydd yn y cartref ac mewn mannau a rennir
- Balconïau a mannau awyr agored
- Y modd i'w haddasu a dyluniad 'parod ar gyfer gofal'
- Defnydd cadarnhaol o le cylchredeg aer
- Cyfleusterau a rennir a 'hybiau'
- Planhigion, coed a'r amgylchedd naturiol
- Ynni-effeithlonrwydd a dyluniad cynaliadwy
- Lle i storio eiddo a beiciau
- Arwynebau allanol a rennir a 'pharthau cartrefi'

- Creu mannau cymunedol hyblyg a hygyrch fel y gellir darparu gwasanaethau yn yr adeilad i bobl hŷn (sef preswylwyr yr adeilad a phobl hŷn yn y gymuned ehangach), a fydd yn helpu i atal allgáu cymdeithasol yn y gymuned ehangach.
- Dyluniad adeiladu sy'n bodloni safonau HAPPI ar gyfer tai pobl hŷn gyda' ffocws ar ddyluniad sy'n deall demensia.
- Creu llety sy'n caniatáu am addasiadau'r dyfodol er mwyn galluogi staff gofal i weithredu o'r adeilad.

Dengys y siart ganlynol y cynlluniau arfaethedig:

| Ardal | Math | Cyfans wm yr Unedau | Datblygwyd Gan | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|
| **Canol y Ddinas a'r De** | | | | |
| Grangetown | Parod ar gyfer Gofal* | 60 | Cyngor Caerdydd | Cam Cysyniad |
| Butetown | Parod ar gyfer Gofal* | 54 | Cyngor Caerdydd | Cam Dylunio |
| **Dwyrain** | | | | |
| Llaneirwg | Parod ar gyfer Gofal* | 82 | Cyngor Caerdydd | Cam Dylunio |
| Tredelerch | Parod ar gyfer Gofal* | 45 | Cyngor Caerdydd | Cam Dylunio |
| **Gogledd** | | | | |
| Llanedern | Parod ar gyfer Gofal* | 45 | Cyngor Caerdydd | Cam Dylunio |
| Llanisien | Gofal Ychwanegol/ Parod ar gyfer Gofal | 60 | Cyngor Caerdydd/Hafod | Cam Cysyniad |
| Llanisien | Parod ar gyfer Gofal 50+ Oed | 70 | Wales & West | Ar y Safle Dyddiad Cwblhau a Amcangyfrifir Ebrill 2020 |
| **De-ddwyrain** | | | | |
| Y Rhath | Parod ar gyfer Gofal 50+ Oed | 45 | Wales & West | Prynwyd y Tir. Dechrau ar y Safle 19/20 |
| **De-orllewin** | | | | |
| Caerau | Llety Penodol ar gyfer Pobl Hŷn | 18 | Cyngor Caerdydd | Ar y Safle |
| Trelái/Caerau | Pentref Ymddeol* | 250 | Cyngor Caerdydd/ Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig/Partneriaid/ Marchnad | Posibl |

*Cyfle i ddarparu Llety Gofal Ychwanegol

Os bydd pob un o'r cynlluniau uchod yn cael ei gymeradwyo, bydd hyn yn darparu mwy na'r angen ychwanegol a ragfynegir am lety rhent, sef 585 uned. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pob llety presennol i bobl hŷn yn bodloni gofynion y dyfodol a gallai fod angen digomisiynu rhai. Felly, byddwn yn parhau i geisio cyfleoedd i ddatblygu tai yn y dyfodol.

# Ateb Galw'r Dyfodol

## Cynlluniau Arfaethedig

Mae pedwar cynllun allweddol y Cyngor yn yr arfaeth sydd â'r nod penodol o ddarparu datblygiadau Byw yn y Gymuned newydd. Mae pob cynllun yn cynnig llety a mannau cymunedol hyblyg a hygyrch gan greu hyb gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y datblygiad ac yn y gymuned ehangach.

Mae **Cynllun Tredelerch** yn cynnig 45 fflat, gardd gymunedol ac ystafelloedd dydd yn ogystal â mannau cymunedol hyblyg eraill. Byddai hyn yn rhan o ddatblygiad â mwy na 200 o gartrefi newydd a gaiff eu darparu trwy raglen Cartrefi Caerdydd y Cyngor. Byddai'r adeilad ger mynedfa'r datblygiad newydd yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleuster manwerthu newydd arfaethedig.






Mae **Cynllun Llanedern** yn cynnig 45 fflat ag ystafelloedd dydd, gardd do gymunedol a chyswllt newydd drwodd i dŵr fflatiau oedran penodol sydd yno eisoes. Byddai hwn mewn lleoliad delfrydol ger yr Hwb newydd, y ganolfan iechyd a'r siopau newydd a'r ardal gymunedol a ddarperir gan Raglen Adfywio Maelfa.

**Cynllun Llaneirwg** yw'r cynnig mwyaf a fyddai'n darparu tua 80 fflat, amrywiaeth helaeth o gyfleusterau cymunedol a lleoedd gardd preifat. Byddai'r fflatiau'n cael eu darparu ar draws 3 adeilad wedi'u cysylltu â chyfleusterau cymunedol ar y llawr gwaelod.



Byddai **Cynllun Butetown** yn cynnig tua 50 fflat newydd i bobl hŷn gyda lle cymunedol ar y llawr gwaelod ac ystafell ddydd i breswylwyr ar y 5ed llawr.

## Datblygiadau Eraill

**Thornhill Road** – Mae gwaith i adlunio hen gartref plant i greu 8 fflat 'Byw'n Annibynnol' y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ar gyfer pobl hŷn bellach wedi'i gwblhau. Ymhlith y nodweddion bydd ystafell gymunedol, ystafelloedd gwlyb ym mhob fflat, mynediad gwastad trwy gydol yr adeilad, lifft i'r lloriau uchaf a thiroedd cwbl hygyrch.

**Cathedral View, Gabalfa** – Datblygiad gan Gymdeithas Tai Hafod â 22 fflat gofal agos sy'n cynnwys 16 uned llety ag 1 ystafell wely a 6 uned llety â 2 ystafell wely y disgwylir ei gwblhau ym mis Chwefror 2019. Caiff pob fflat ei hadeiladu'n benodol ar gyfer yr henoed a gellir ei addasu at ddefnydd cadair olwyn neu breswylwyr ag anabledd difrifol. Maent oll wedi'u dylunio yn unol â gofynion 'Visibly Better' RNIB Cymru.

Datblygiad diogel â gât yw Cathedral View ac mae ganddo gymorth warden a system galwadau teleofal. Mae'r fflatiau'n seiliedig ar y maint 'gofal ychwanegol' i ddarparu cylchoedd troi ac ystafelloedd cawod ar bwys yr ystafelloedd gwely. Ymhlith nodweddion y cynllun mae ardal gegin a lolfa gymunedol sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol. Mae hefyd WiFi ar gael yn ogystal â lle i storio beiciau/bygis.



Yn gyffredinol, bydd cynlluniau presennol i adeiladu tai cyngor fforddiadwy newydd yn creu tua 2200 o unedau dros y 10 mlynedd nesaf, ac o'r rheiny bydd 416 yn dai ar gyfer pobl hŷn ac yn addas ar gyfer tai â gofal a bydd 18 arall yn benodol ar gyfer pobl hŷn. O'r rhain, mae 317 uned ar y cam cysyniad cychwynnol ac mae 117 uned wedi cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth gynllunio. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cyfeirio gan arfer gorau o fannau eraill a byddant yn darparu amrywiaeth o lety ar draws yr ardaloedd lle mae'r angen heb ei ddiwallu ar ei fwyaf.

Er eu bod yn uchelgeisiol, ni fydd y cynlluniau'n darparu'r 585 o gartrefi (353 o dai pobl hŷn a 232 o dai â gofal) y mae eu hangen erbyn 2035 a bydd angen datblygu rhagor o dai fforddiadwy i bobl hŷn. I fwrw ymlaen â hyn, caiff cynllun ar gyfer y ddinas gyfan ei ddatblygu a fydd yn ystyried y ddarpariaeth bresennol, cynlluniau sefydledig a'r angen am lety pobl hŷn yn y dyfodol ar sail ardal ac anghenion.

### Canfyddiadau

Mae amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer adeiladu cartrefi fforddiadwy pobl hŷn/parod ar gyfer gofal newydd eisoes yn yr arfaeth a bydd y rhain yn darparu 729 o gartrefi newydd erbyn 2030 y bydd 434 ohonynt yn gartrefi cyngor, 195 yn gartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a 100 ar gyfer perchnogaeth breifat.

**BYDDWN YN:**

Gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd ac LCC i ddatblygu cynllun sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y ddinas gyfan er mwyn datblygu tai fforddiadwy yn y dyfodol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n byw â demensia ac amrywiaeth eang o anghenion gofal.

Darparu isafswm o 729 o gartrefi newydd ar gyfer pobl hŷn erbyn 2030 y bydd 434 ohonynt yn gartrefi cyngor, 195 yn gartrefi LCC a 100 ar gyfer perchnogaeth breifat, a datblygu cynigion ychwanegol fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i adeiladu 2,000 o gartrefi newydd.

## Cynllunio a Datblygu yn y Sector Preifat

### Creu Cymunedau Newydd

Mae'r datblygiadau mawr newydd sy'n cael eu hadeiladu fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn rhoi cyfle i weithio gyda datblygwyr i adeiladu tai i bobl hŷn yn agos at ganolfannau lleol newydd neu ynddynt. Mae gwaith yn cael ei wneud gydag adeiladwyr tai marchnad i ddarparu tai fforddiadwy newydd i bobl hŷn ar safleoedd y CDLl.

Bydd y ffocws hwn yn sicrhau y caiff y tai fforddiadwy priodol eu darparu lle mae'r angen mwyaf amdanynt a bydd yn sicrhau bod tenantiaid yn byw o fewn cyrhaeddiad hawdd i'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn y ganolfan leol newydd.

### Y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig

Mae'r CDLl presennol yn nodi y bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau amrywiaeth o feintiau, mathau a fforddiadwyedd anheddau o ran tai marchnad a thai fforddiadwy er mwyn diwallu'r anghenion a nodir (gan gynnwys tai cymorth, tai gwarchod ac anghenion arbennig eraill lle bo'n briodol), mewn cymdogaethau diogel. Felly hwn yn rhoi'r fframwaith angenrheidiol i annog cynnwys rhywfaint o dai ar gyfer pobl hŷn ar safleoedd addas lle mae eu hangen yn y farchnad.

Mae cefndir y polisi yn rhoi fframwaith i'r system gynllunio i roi ystyriaeth gadarnhaol i gynigion ar gyfer tai a llety pobl hŷn ar safleoedd a ystyrir yn briodol. Mae hyn wedi galluogi safleoedd sector preifat i ddod trwy'r system gynllunio fel a welir gyda'r cynlluniau a gwblhawyd gan McCarthy a Stone sydd newydd ddatblygu tai gwarchod yn y Rhath a Llanisien.

**Ilex Close, Llanisien**

Datblygiad preifat, hapfasnachol gan McCarthy a Stone â 36 fflat Bywyd wedi Ymddeol a 49 fflat Gofal Ychwanegol Byw â Chymorth. Mae llety Bywyd wedi Ymddeol yn cael eu dylunio ar gyfer pobl hŷn sy'n fwy annibynnol, gyda fflatiau wedi'u trefnu o amgylch craidd o gyfleusterau cymunedol; mynediad gwastad/lifft; cyfleusterau Careline; a goruchwyliaeth gan reolwr tŷ. Mae'n ofyniad dan amodau prydlesu i'r llety gael ei feddiannu gan bobl 60+ oed.

Mae Byw â Chymorth yn ffurf ar lety gofal ychwanegol sy'n galluogi pobl oedrannus sy'n eiddil i fyw'n annibynnol gyda chymorth pob dydd ar ffurf cymorth domestig a gofal cartref wedi'u teilwra i anghenion y perchennog. Yn hanfodol i hyn mae darparu gofal 24 awr mewn amgylchedd dirwystr sy'n hygyrch i gadeiriau olwynion mewn mannau cymunedol a phreifat. Mae'r oedran mynediad wedi'i bennu'n 70 oed.

### Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Mae fersiwn newydd Polisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 yn llawer cliriach na'r polisi blaenorol wrth gydnabod pwysigrwydd y system gynllunio wrth ddarparu tai i bobl hŷn. Rhaid i awdurdodau cynllunio nodi digon o safleoedd sy'n addas ar gyfer amrywiaeth llawn o fathau o dai er mwyn diwallu anghenion cymunedau a nodir, gan gynnwys anghenion pobl hŷn. Mewn perthynas â dylunio, mae'n rhaid i gynigion datblygiad ystyried cynhwysiant a hygyrchedd i bawb, gan gynnwys darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl hŷn.

Mae'r polisi wedi cyfeirio nifer o argymhellion a gaiff eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf:

- Paratoi/adolygu sail dystiolaeth sy'n nodi anghenion y dyfodol am dai a llety i bobl hŷn er mwyn cyfeirio adolygiadau o'r CDLl yn y dyfodol.
- Ymgorffori targedau penodol ar gyfer tai a llety i bobl hŷn mewn adolygiadau o'r CDLl yn y dyfodol a nodi safleoedd priodol i fwrw'r targedau hyn.
- Ystyried a oes cyfle i lunio Canllawiau Cynllunio Statudol (CCA) ar safleoedd ar gyfer tai a llety i bobl hŷn cyn adolygu'r CDLl.
- Cysylltu â datblygwyr tai a llety i bobl hŷn er mwyn hwyluso darparu safleoedd ar draws y ddinas.
- Trafod â datblygwyr y safleoedd tai strategol yr angen am dai a llety i bobl hŷn a'r cyfle i nodi safleoedd o fewn y safleoedd tai strategol er mwyn diwallu'r angen hwn.

## Canfyddiadau

Ni fu polisi cynllunio yn rhagweithiol yn y gorffennol wrth annog darparu rhagor o dai, er ei fod yn caniatáu am ddatblygu tai newydd i bobl hŷn. Mae fersiwn newydd Polisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 yn llawer gliriach o ran y rôl y dylai cynllunio fod yn ei chwarae wrth hyrwyddo tai ar gyfer pobl hŷn ac mae gofyn i'r awdurdod bennu targedau penodol ar gyfer tai pobl hŷn a gweithio gyda datblygwyr i gyflawni hyn.

## BYDDWN YN:


- Gweithio tuag at roi'r Polisi Cynllunio Cymru newydd ar waith yn llawn fel y mae'n ymwneud â thai pobl hŷn, gan gynnwys y defnydd o Ganllawiau Cynllunio Atodol, lle bo'n briodol.
- Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol nesaf, pennu targed ar gyfer darparu tai i bobl hŷn a gweithio gyda datblygwyr i gyflawni'r targed hwn.
- Parhau i weithio gydag adeiladwyr tai marchnad i ddarparu cartrefi fforddiadwy i bobl hŷn yn agos at y canolfannau lleol newydd neu ynddynt.

# Pobl


## Cefnogi Annibyniaeth

### Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae **Gwasanaethau Byw'n Annibynnol** yn ddull arloesol o helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol a darparu gwasanaethau ar sail yr hyn sy'n bwysig i'r person hŷn unigol. Dan arweiniad ymagwedd sy'n seiliedig ar y person ac yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r gwasanaeth wedi datblygu i ymgorffori amrywiaeth o swyddogaethau fel y gwelir isod. Mae integreiddio gwasanaethau'n llawn wedi gwella mynediad i wasanaethau'r Cyngor, gan gynorthwyo rhagor o bobl hŷn i fyw'n annibynnol yn neu cartrefi eu hunain ac arwain at ostyngiad yn y galw am ofal cymdeithasol.




***Cleientiaid Gwasanaethau Byw'n Annibynnol yng Nghaerdydd***





### Cyswllt Cyntaf

Mae Tîm Cyswllt Cyntaf y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn darparu gwasanaeth brysbennu dros y ffôn ar gyfer atgyfeiriadau newydd i'r gwasanaeth. Trwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorth, a thrwy drafod canlyniadau mewn ffordd well, mae'r tîm yn gweithio i ddod o hyd i'r ateb gorau ar gyfer y person hŷn.

# Pobl

## Tîm Ymweliadol Byw'n Annibynnol

Mewn achosion mwy cymhleth, mae Swyddogion Ymweliadol Byw'n Annibynnol aml-sgil yn cynnal asesiadau cyfannol yng nghartref y cleient. Rhoddir ystyriaeth i bob ffactor sy'n cyfrannu at annibyniaeth ac ymdeimlad o les.




Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2017, derbyniodd 74% o achosion newydd y cymorth yr oedd ei angen arnynt gan y Cyswllt Cyntaf a'r timau Byw'n Annibynnol ehangach, gyda 26% yn unig yn cael eu hatgyfeirio i Ofal Cymdeithasol, sy'n dangos llwyddiant y gwasanaeth wrth ddod o hyd i atebion yn y gymuned i ddiwallu anghenion pobl hŷn.

### ASTUDIAETH ACHOS

Cysylltodd Mrs I â'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol gan ei bod yn meddwl bod angen gweithiwr cymdeithasol ac efallai pecyn gofal arni i'w helpu. Roedd hi'n cael trafferth yn symud o le i le yn y tŷ ac roedd problemau clyw ganddi hefyd. Trefnodd y Tîm Cyswllt Cyntaf ymweliad ar y cyd â Swyddog Byw'n Annibynnol a Therapydd Galwedigaethol i gynnal asesiad cyfannol a lles llawn.

Yn dilyn yr asesiad:

- Gosodwyd canllawiau i alluogi Mrs I i adael ei chartref a mynd i'w gardd heb gymorth.
- Cynorthwywyd Mr a Mrs I i wneud cais am Lwfans Gweini.
- Yn dilyn asesiad clyw, rhoddwyd cloch drws uchel ei sŵn sy'n goleuo a larwm tân sy'n dirgrynu i Mrs I.
- Trefnwyd teleofal i fonitro Mrs I pan fydd hi ar ei phen ei hun gartref sy'n gwneud iddi deimlo'n fwy diogel.

## Canfyddiadau

Mae Gwasanaethau Byw'n Annibynnol Caerdydd yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n canolbwyntio ar helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Mae cryn lwyddiant wedi'i gyflawni gyda 75% o gleientiaid yn cael cymorth i aros gartref heb yr angen am ymyrraeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn cael ei ariannu'n bennaf trwy grant gan Lywodraeth Cymru ond nid oes sicrwydd ynglŷn â'r cyllid hwn yn y dyfodol. Gall parhad y gwasanaeth hwn fod dan fygythiad os na sicrheir cyllid yn y dyfodol.

## BYDDWN YN

Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gynnal.

### Cymorth i Aros Gartref

Mae amrywiaeth o gymorth ar gael i helpu i wneud amgylchedd ffisegol cartref person hŷn yn fwy addas i'w anghenion:

### Gwasanaeth Cyfarpar ar y Cyd

Mae'r Gwasanaeth Cyfarpar ar y Cyd yn darparu gwasanaeth benthyca cyfarpar cymunedol effeithlon i breswylwyr Caerdydd a Bro Morgannwg.





Mae'r gwasanaeth yn danfon cyfarpar i gartref person ar ôl atgyfeiriad gan glinigwyr cymunedol neu ysbyty. Mae hefyd yn trefnu casglu ac adnewyddu cyfarpar sydd wedi'i ddefnyddio. Mae'r gwasanaeth bellach yn cynnig danfoniad ar yr un diwrnod neu'r un nesaf.

# Pobl

## Addasiadau i'r Anabl

Mae'r Tîm Cyfleusterau Pobl Anabl yn darparu gwasanaeth grantiau prawf modd sy'n galluogi addasiadau sylweddol i gartref y cleient er mwyn hwyluso symud a gwella hygyrchedd trwy'r tŷ. Mae'r tîm hefyd yn cyflawni gwaith ataliol lefel isel megis canllawiau a rheiliau gafael. Caiff gwaith mwy sylweddol ei asesu gan Therapydd Galwedigaethol a fydd yn sicrhau bod yr addasiad yn diwallu anghenion y person hŷn yn llawn. Yn achos gwaith llai sylweddol, bydd Swyddogion Byw'n Annibynnol yn cyflawni rôl aseswr dibynadwy wrth asesu anghenion y cleient.




Mae perfformiad Caerdydd o ran pa mor gyflym mae addasiadau'n cael eu cwblhau yn dda – y chweched cyflymaf yng Nghymru gan gymryd 274 diwrnod i gwblhau'r gwaith - ac mae costau cyfartalog yn cymharu'n ffafriol iawn â chynghorau eraill , sef £6200 – yr ail isaf yng Nghymru. Mae hyn yn dangos y gwerth da am arian sy'n cael ei gyflawni gyda'r cyllid a ddarperir.

Mae Cyngor Caerdydd wedi cydnabod rôl bwysig addasiadau wrth cadw pobl hŷn yn annibynnol yn hwy a chynyddu eu lles. Yn 2016/17 dyrannwyd £1.9 miliwn ychwanegol i'r gyllideb addasiadau.

Erbyn hyn mae Caerdydd yn gwneud llawer mwy o addasiadau nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru. Serch hyn, mae'r galw'n parhau i gynyddu ac mae angen am ymrwymiad parhaus i ariannu addasiadau er mwyn diwallu anghenion. Mae angen hefyd sicrhau bod yr holl gyfarpar ac addasiadau'n cael eu hailgylchu pan nad oes angen arnynt mwyach, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael.

## Pobl

Yn achos tai cymdeithasol mae angen sicrhau bod tai wedi'u haddasu'n cael eu dyrannu i'r rhai y mae eu angen arnynt fwyaf a bod llety newydd yn cael ei adeiladu wrth ystyried anghenion y dyfodol.  Mae pob cartref newydd y Cyngor bellach yn cael ei adeiladu gyda'r cyfle i osod lifftiau trwy'r lloriau a chyda chyfleusterau llawr gwaelod, gan alluogi ei addasu'n haws ac yn gynt i'r anabl.

Hyd yn hyn, mae 23% o gartrefi cyngor newydd eu hadeiladu wedi cael eu dyrannu i aelwydydd lle mae gan aelod o'r teulu anabledd corfforol.

### ASTUDIAETH ACHOS

Rhyddhawyd Mr B o'r ysbyty i gartref gofal preswyl ond ar ôl hyn penderfynodd yntau ei fod am ddychwelyd i'w gartref ei hun. Cynhaliodd y Therapydd Galwedigaethol Adolygu asesiad gyda Mr B a staff yn y cartref gofal ac yn ei gartref gyda'i ferch i weld a oedd modd diwallu ei anghenion trwy ddefnyddio cyfarpar priodol a gwnaed yn siŵr ei fod yn gwneud penderfyniad gwybodus am ddychwelyd adref.

Penderfynwyd y gallai Mr B, gyda'r pecyn gofal cywir a chymorth ei deulu, ddychwelyd adref. Mae hyn wedi arwain at fuddion ariannol i'r Cyngor, ond mae hefyd wedi galluogi Mr B i wireddu ei awydd i aros yn ei gartref ie hun, gan wella'i les.

### Barn Pobl Hŷn

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg pobl hŷn nodi unrhyw newidiadau ac addasiadau eu bod wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud i'w cartrefi presennol a fyddai'n eu galluogi i barhau i fyw yno. Yr addasiadau a oedd fwyaf cyffredin oedd:

- Addasiadau i ystafelloedd ymolchi (23%)
- Rheiliau gafael (22%)
- Mynediad gwell megis rampiau (9%)
- Gosod lifftiau/lifftiau grisiau (8%)

Mae hyn yn rhoi tystiolaeth o'r mathau o addasiadau y mae'n debygol y bydd mwy o alw amdanynt wrth i'r boblogaeth hŷn gynyddu.

### Canfyddiadau

Mae Cyngor Caerdydd wedi buddsoddi mewn darparu addasiadau i gartrefi. Mae'r Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl yn gweithio'n dda, gan ddarparu addasiadau mewn modd amserol a chost-effeithiol sy'n chymharu'n dda â gweddill Cymru.

Mae'n debygol y bydd y galw am addasiadau i'r anabl barhau i gynyddu, gan roi pwysau ar adnoddau presennol. Mae angen deall costau'r gwasanaeth yn y dyfodol a sicrhau bod cartrefi a chyfarpar wedi'u haddasu'n cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

## BYDDWN YN:


- Parhau ag ymrwymiad y Cyngor i ddarparu addasiadau i'r anabl er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu aros yn annibynnol yn eu cartrefi.
- Gweithio i sicrhau'r defnydd gorau o gartrefi wedi'u haddasu ac ailgylchu cyfarpar lle bynnag y bo modd. Hefyd adolygu galw tebygol y dyfodol ar y gwasanaeth er mwyn cyfeirio trefniadau ariannu yn y dyfodol.

## Cymorth sy'n Ymwneud â Thai

### Cymorth yn ôl yr Angen

Mae cymorth yn ôl yr angen ar gael i bobl hŷn i'w helpu i gadw eu llety. Mae'r math o gymorth a ddarperir yn cynnwys help gyda materion tenantiaeth a hawlio budd-daliadau perthnasol, yn ogystal â chymorth i dderbyn gwasanaethau iechyd priodol.

Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, derbyniodd 515 o unigolion dros 55 oed gymorth yn ôl yr angen.





Mae prif anghenion, ac anghenion eilaidd, pob cleient cymorth yn ôl yr angen sy'n 55+ oed yn cael eu cofnodi mewn categorïau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a nodir y rhain yn y siart gerllaw.

'Pobl 55+ oed ag anghenion cymorth' oedd y prif angen mwyaf i bob cleient; fodd bynnag, roedd problemau iechyd meddwl hefyd yn bwysig gyda 98 o achosion yn cael eu cofnodi'n brif angen a 77 yn angen eilaidd.

# Pobl

I'r achosion hynny lle roedd cleientiaid "55+ oed ag anghenion cymorth", rhestrir yr anghenion eilaidd a gofnodwyd isod:




Fel y gellid ei disgwyl, mae pobl ag anableddau corfforol a synhwyraidd yn grŵp nodedig; fodd bynnag, roedd problemau iechyd meddwl wedi arwain at yr anghenion cymorth mwyaf sylweddol gyda 40 achos yn cael eu cofnodi (32% o'r holl anghenion eilaidd a gofnodwyd).

Byddai'r cleientiaid hynny yr oedd eu problemau iechyd meddwl wedi'u cofnodi'n brif angen neu'n angen eilaidd yn cynnwys rhai pobl hŷn â demensia y mae angen cymorth llety arnynt; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu gwahaniaethu o gleientiaid ag anghenion iechyd meddwl eraill. Byddai ymchwilio ymhellach, gan gynnwys gwirio samplau o ddata, yn fuddiol i ddeall anghenion cymorth unigol y grŵp hwn yn llawn a sicrhau y gwneir atgyfeiriadau i'r gwasanaethau priodol.

## Canfyddiadau

Roedd gan nifer sylweddol o bobl hŷn a oedd yn derbyn cymorth yn ôl yr angen broblemau iechyd meddwl.

## BYDDWN YN:

Yn y dyfodol caiff samplau o achosion cymorth yn ôl yr angen eu gwirio i ddeall anghenion cymorth unigolion â phroblemau iechyd meddwl yn llawn.

### Pryd ar Glud

Gwasanaeth yw Pryd ar Glud sy'n helpu preswylwyr oedrannus ac agored i niwed i fyw'n annibynnol trwy ddosbarthu prydau twym, maethlon ar draws y ddinas ar sail adfer incwm.

Mae'r gyrwyr yn meithrin perthynas barchus â chleientiaid, ac maent yn wyneb groesawgar a chyfarwydd ac, mewn rhai achosion, maent yn cynnig cyswllt hanfodol i gleientiaid â'r byd tu allan.

Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2018, roedd **48,610** o brydau wedi cael eu dosbarthu ac mae **96%** o gwsmeriaid yn cytuno bod y gwasanaeth wedi'u helpu i aros yn annibynnol gartref.

# Pobl

## Teleofal

Mae tîm o weithredwyr a wardeniaid symudol wedi'u hyfforddi'n benodol yn rhoi cymorth a chefnogaeth fel y gall pobl hŷn barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r cyfarpar diweddaraf sy'n hawdd ei ddefnyddio yn cael ei osod yng nghartref cwsmer, gan gynnwys crogdlws â larwm botwm gwasgu ac uned fach i gysylltu â'r tîm sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Os bydd angen cymorth uniongyrchol, mae wardeniaid symudol wrth law i ddarparu cymorth brys.

Mae cyfle i ehangu'r defnydd o ofal a alluogir gan dechnoleg, boed hynny mewn anheddau unigol ac mewn cynlluniau tai i bobl hŷn er mwyn helpu i gefnogi annibyniaeth a lles.

**Mae dros 4,500**
**o gwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau Teleofal yng Nghaerdydd.**

**Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr**

**derbyniwyd 193,672 o alwadau Teleofal**

**Cyswllt yn Unig**
**21% o gwsmeriaid Teleofal**

**Ymateb Symudol**
**79% o gwsmeriaid Teleofal**

### Galwadau am Gymorth Wardeniaid

**O 3771 o alwadau am gymorth wardeniaid**

**Gwnaed 52% o'r galwadau oherwydd bod y cwsmer wedi cwympo**

**Roedd angen galw ambiwlans mewn 5.76 o'r achosion hyn yn unig**

Bu modd osgoi costau gwerth **£301,200** i Wasanaeth Ambiwlans Cymru hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon.

## Canfyddiadau

O 3,771 o alwadau am gymorth wardeniaid symudol, mewn llai na 218 (6%) roedd angen galw am ambiwlans gan arbed rhyw £301,200 i Wasanaeth Ambiwlans Cymru hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon.

## Cymorth i Ddychwelyd Adref o'r Ysbyty

### Camu i Lawr

Mae llety Camu i Lawr yn cynnig ateb dros dro rhwng yr ysbyty a'r cartref ac mae'n hyrwyddo byw'n annibynnol mewn amgylchedd sydd wedi'i addasu. Mae'n gallu cynnig ateb cartref tymor byr mewn amrywiaeth o fflatiau sydd wedi'u haddasu ac mae'n gallu helpu i leihau nifer y gwelyau a lenwir mewn ysbytai trwy alluogi pobl sy'n feddygol iach i adael yr ysbyty os oes angen gwneud addasiadau neu waith yn eu cartref presennol, neu os oes angen eu hailgartrefu.

Mae hefyd yn gallu cynorthwyo pobl y mae angen iddynt adael eu cartref presennol dros dro er mwyn i waith addasu gael ei wneud. Gellir defnyddio llety Camu i Fyny er mwyn asesu anghenion corfforol person mewn amgylchedd wedi'i addasu a galluogi gwaith

### Gwasanaeth Ewch â Fi Adre

Gan adeiladu ar gyflawniadau'r Cyswllt Cyntaf yng Nghaerdydd, mae gwasanaeth newydd Ewch â Fi Adre yn fan cyswllt sengl yn yr ysbyty. Trwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, mae'r tîm wrth law i gwrdd â chleifion gan ddefnyddio sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' i ddarparu cymorth cyfannol pwrpasol sy'n diwallu anghenion lles yr unigolyn. Maent yn darparu ymyriadau ataliol, yn cefnogi byw'n annibynnol a rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ac yn lleihau'r perygl o ddychwelyd i'r ysbyty.

### ASTUDIAETH ACHOS – Gwasanaeth Ewch â Fi Adre

Aethpwyd â Mr D i Ysbyty Athrofaol Cymru ar ôl cwympo.

Darganfu'r Swyddog Ewch â Fi Adre mai'r hyn a oedd yn bwysig i Mr D oedd 'teimlo'n ddiogel yn ei gartref ei hun'. Esboniodd Mr D nad oedd ei deulu'n byw yng Nghaerdydd, felly nid oedd cymorth lleol ganddo. Roedd yn teimlo mai'r unig ddewis oedd lleoliad preswyl, i'w helpu i deimlo'n ddiogel.

Nodwyd sawl gwasanaeth a ellid eu rhoi ar waith i ddiwallu anghenion Mr D gartref, wrth hybu ei annibyniaeth a'i les ar yr un pryd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Atgyfeirio i Deleofal**
- Atgyfeirio i **Dîm Ymweliadol y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol** er mwyn cynnal asesiad mwyafu incwm. Byddai hefyd yn trafod dewisiadau llety gwarchod i oresgyn unigrwydd.
- **Tîm Cyfleoedd Dydd** er mwyn magu hyder Mr D wrth ymwneud â'r gymuned yn annibynnol.
- Atgyfeirio i'r **Tîm Adnoddau Cymunedol** er mwyn cynorthwyo Mr D i ailsefydlu ei annibyniaeth flaenorol trwy wasanaethau ailalluogi.
- Gwnaed atgyfeiriadau hefyd i oresgyn allgáu cymdeithasol ac am gymorth i reoli meddyginiaeth.
- Roedd yr atgyfeiriadau hyn yn osgoi'r angen am ofal cymdeithasol, yn lleihau nifer y dyddiau mewn gwely ysbyty ac yn cynorthwyo Mr D i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel.

# Pobl

## Cymorth i Symud


### Deall Dyheadau Pobl Hŷn

O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg pobl hŷn, nododd 44% (221) eu bod yn disgwyl symud a gofynnwyd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws am eu barn o ran yr agweddau pwysicaf ar y llety y gallent fod yn ystyried symud iddo. Yr agweddau hyn oedd:

- **Diogelwch (67%)**
- **Meddu ar ardd breifat (66%)**
- **Digon o le storio (62%)**
- **Meddu ar garej neu le parcio (62%)**
- **Symud i ardal â chaffis/siopau (61%)**

Roedd ffactorau pwysig eraill yn cynnwys:

- **Cael cyfleoedd cymdeithasol (41%)**
- **Y gallu i ddod ag anifeiliaid anwes (39%)**
- **Cartref mwy hygyrch (37%)**




Fodd bynnag, roedd barn gymysg i ran symud i lety person hŷn. Nododd rhai cyfranogwyr yr hoffent fyw mewn llety i bobl hŷn, ond yn bendant roeddent am barhau i fyw mewn cymuned oedran cymysg.

Teimlai rhai cyfranogwyr yn gryf am feddu ar ardd. Roedd lle awyr agored preifat yn bwysig, yn benodol wrth i bobl ddod yn llai symudol wrth heneiddio.

Nododd cyfranogwyr y grwpiau ffocws a oedd yn berchen-feddianwyr fod diffyg dewisiadau tai deniadol, yn eu barn nhw, yn eu troi oddi ar y syniad, hyd yn oed os oedd ddiddordeb ganddynt yn gyffredinol mewn symud i gartref llai. Roedd diddordeb mewn tai gofal ychwanegol, ond fel arfer fel dewis symud yn ddiweddarach mewn bywyd, gyda phryderon yn cael eu codi am fforddiadwyedd y modeli presennol. Mynegwyd pryderon gan rai cyfranogwyr am addasrwydd cartrefi ymddeol wrth i bobl ddatblygu anghenion gofal mwy sylweddol.

I'r cyfranogwyr hynny na fynegodd ddiddordeb mewn symud i gartrefi penodol ar gyfer pobl hŷn, mae'r siart gerllaw yn nodi mai meddu ar larwm yw'r gwasanaeth pwysicaf y mae pobl hŷn am ei gael.

# Pobl

## Cyngor a Chymorth i Helpu i Symud

Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil uniongyrchol gyda phobl hŷn yn nodi eu bod am gael:

- Gwybodaeth gynhwysfawr am yr amrywiaeth llawn o ddewisiadau tai ar gyfer pobl hŷn, h.y. yn ogystal â rhentu gan landlordiaid cymdeithasol.

- Cyngor *arbenigol* o ran dewisiadau tai pobl hŷn yn ogystal â gwybodaeth.

- Cyfle i weld adnoddau ar-lein a phapur sy'n eu galluogi i bwyso a mesur manteision ac anfanteision gwahanol ddewisiadau tai.

Ar hyn o bryd mae diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â dewisiadau tai pobl hŷn. Roedd hyn yn cael ei atgyfnerthu gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws pobl hŷn a nododd fod ffactorau ariannol, cyfreithiol ac ymarferol yn gysylltiedig â symud tŷ neu symud i gartref llai a bod y broses yn gallu bod yn hir, felly mae angen cymorth gwahanol ar adegau gwahanol. Roeddent hefyd yn pwysleisio nad oes llawer o bobl yn gwybod am dai gwarchod neu ofal ychwanegol, felly gallent golli cyfleoedd a bod angen hyrwyddo'r gwasanaethau'n well.

Ymhlith berchen-feddianwyr roedd awydd am wybodaeth gynhwysfawr a chyngor *wyneb yn wyneb* am y gwahanol ddewisiadau tai a allai fod yn addas i bobl hŷn.

### Canfyddiadau

Nododd 44% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn disgwyl symud i lety mwy addas.

Mae'n debygol y bydd y galw am addasiadau i'r anabl barhau i gynyddu, gan roi pwysau ar adnoddau presennol. Mae angen i ddeall costau'r gwasanaeth yn y dyfodol a sicrhau bod cartrefu a chyfarpar wedi'u haddasu'n cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Pan ofynnwyd iddynt, roedd pobl hŷn yn anymwybodol yn aml o'r gwahanol ddewisiadau tai a oedd ar gael ac roeddent yn pryderu am y materion ariannol, cyfreithiol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â symud. Dros y blynyddoedd nesaf bydd angen gwella'r cyngor ar dai arbenigol sydd ar gael i bobl hŷn.

# Pobl

## Symud i Gartref Llai

Nododd 44% o bob un a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn ystyried symud yn y dyfodol, ac o'r rhain roedd 40% yn ystyried symud i gartref llai. O'r rheiny a oedd yn ystyried symud i gartref llai, roedd 48% yn berchen ar eu cartrefi o'u cymharu ag 20% yn unig o'r ymatebwyr hynny sy'n rhentu ar hyn o bryd.

Mae manteision sylweddol i symud i lety priodol llai: yn ogystal â lleihau biliau tanwydd a chostau eraill, mae symud i lety mwy hygyrch â mynediad gwastad a/neu gyfleusterau llawr gwaelod yn gallu helpu'r person hŷn i aros yn annibynnol gartref am amser hwy. Gall symud i rywle mwy canolog neu sy'n nes at rwydweithiau cymdeithasol leihau'r perygl o allgáu cymdeithasol ac i rai berchnogion tai, gall ryddhau cyfalaf.

### Symud i Gartref Llai a Thai Cymdeithasol

Mae mwy o fanteision i symud o dai cymdeithasol i gartref llai oherwydd y gall ryddhau llety teulu mawr ei angen i'r rhai sydd ar y rhestr aros. Mae llawer o deuluoedd yn byw mewn llety gorlawn neu dros dro ac amcangyfrifir y gall 2.5 aelwyd elwa o'r eiddo sy'n dod ar gael bob tro mae person yn symud i gartref llai.

Ar ddechrau mis Rhagfyr 2018 roedd 147 o aelwydydd ar y rhestr aros ar gyfer tai cymdeithasol a oedd yn awyddus i symud i gartref llai lle roedd yr aelwyd cyfan yn 50+ oed. Yn ogystal i'r rhai sy'n mynd ati i geisio symud, amcangyfrifir bod gan 2,300 eraill o denantiaid tai cymdeithasol 65+ oed gartref ag o leiaf 1 ystafell wely segur. Er na wyddys beth potential housing needs and wants of this yw anghenion a dyheadau posib y grŵp hwn, mae'n amlwg bod nifer sylweddol o denantiaid tai cymdeithasol hŷn yn byw mewn cartrefi sy'n rhy fawr a/neu'n anaddas i'w hanghenion presennol.

Gallai helpu tenantiaid sy'n tanfeddiannu i symud i lety mwy addas fod yn ffordd well o ddiwallu eu hanghenion tai a hybu byw'n annibynnol, wrth ryddhau cartrefi mwy o faint i deuluoedd sydd ar y rhestr aros tai.

Yn unol â Chynllun Dyrannu Tai Caerdydd, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai symud am symud i gartref llai. Fodd bynnag, gallai cyfyngiadau ar hyn o bryd ar y dewis sydd ar gael fod yn atal llawer rhag ystyried symud. Roedd yr arolwg cleientiaid yn dangos y byddai'n well gan lawer o bobl hŷn symud i gartref â 2 ystafell wely, er mai llety 1 ystafell wely a allai fod ei angen arnynt mewn gwirionedd. Efallai bod pobl hŷn eraill am fwy o hyblygrwydd i symud o fewn eu cymdogaeth eu hunain neu o fewn eu hadeilad neu eu cynllun tai presennol. Mae angen ystyried cynnig mwy o hyblygrwydd a dewis i bobl hŷn sydd am symud i gartref llai.

Hefyd, er bod help ar gael i denantiaid cymdeithasol sydd am symud tŷ neu symud i gartref llai, cydnabyddir bod bwlch yn y cymorth i berchnogion preifat a'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Bydd angen ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn sicrhau nad yw'r math o ddeiliadaeth yn rhwystr i symud i lety addas i bobl hŷn.

# Pobl

## ASTUDIAETH ACHOS

Sefydlwyd Tîm Atebion Llety peilot yn 2017 i roi cymorth i denantiaid y cyngor sydd am symud i gartref llai neu y mae angen arnynt i wneud hyn ac sy'n teimlo bod yr holl broses yn heriol. Cynigir atebion pwrpasol, gan gynnwys cyngor ar sut i wneud cais am ailgartrefu; ymweliadau cartref; mentrau ariannol; a chymorth gyda threfniadau symud dodrefn. Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n rhagweithiol i nodi tanfeddianwyr nad ydynt eisoes ar y rhestr aros tai a allai fod yn ystyried symud. Cynorthwywyd 46 tenant i symud i gartrefi llai, gyda mwy na hanner o'r rhain i dai pobl hŷn. Roedd cartrefi a ryddhawyd o ganlyniad i hyn yn cynnwys 31 o dai â thair ystafell wely, 1 tŷ â phedair ystafell wely a 2 dŷ â dwy ystafell wely. Yn ogystal â helpu'r rhai ar y rhestr aros, mae'r tîm hefyd wedi mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â thenantiaid sy'n tanfeddiannu ac o ganlyniad, mae 10 tenant wedi ymuno â'r rhestr; mae tri thenant wedi symud.

## Canfyddiadau

- Mae buddion sylweddol i bobl hŷn sy'n symud i gartref llai mwy priodol a gall hyn chwarae rhan sylweddol wrth eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.
- Mae nifer mawr o bobl hŷn yn tanfeddiannu tai cymdeithasol nad yw eu hanghenion a'u dyheadau tai yn hysbys. Gallai rhoi dewisiadau tai deniadol iddynt eu hannog i symud i gartref llai, a fyddai'n rhoi llety mwy cynaliadwy iddynt wrth ryddhau llety teulu mawr ei angen.
- Mae prinder cymorth ar gael i berchnogion cartrefi a'r rhai yn y sector rhent preifat i'w helpu i symud i gartrefi llai.
- Cafwyd peth llwyddiant wrth gynorthwyo tenantiaid cymdeithasol hŷn i symud i gartrefi llai. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ehangu ar y llwyddiant hwn, gan symud rhwystrau a rhoi dewis gwell er mwyn annog symud i gartref llai.

## BYDDWN YN :

Datblygu "Uned Pobl Hŷn a Chartrefi Hygyrch" newydd er mwyn:

- Darparu cyngor arbenigol ar dai i bob person hŷn i'w helpu i ddeall eu dewisiadau tai'n well.
- Sicrhau bod cyngor a gwybodaeth o safon uchel ar gael ar wefan y Cyngor, mewn Hybiau a thrwy sesiynau a digwyddiadau gwybodaeth.
- Cefnogi pobl ag anableddau i gael mynediad i eiddo wedi'i addasu.
- Cefnogi pobl hŷn i symud i lety llai, mwy priodol.
- Hwyluso cyfnewidiadau rhwng tenantiaid cymdeithasol trwy wybodaeth a ddelir ar y Rhestr Aros Tai.

# Pobl

## Diwallu Anghenion y Bobl Fwyaf Agored i Niwedd

### Deall Anghenion Pobl Oedrannus sy'n Eiddil

Fel a amlygwyd yn y Cyflwyniad, disgwylir i nifer y bobl hŷn ag anghenion sy'n ymwneud â demensia, eiddilwch ac anableddau corfforol gynyddu'n sylweddol.

| Nifer Amcangyfrifol y Bobl 65+ Oed yng Nghaerdydd | | | |
|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | | Cynnydd |
| Cyflwr Iechyd | 2015 | 2035 | |
| Salwch cyfyngus hirdymor | 17,811 | 27,525 | 55% |
| Gordewdra | 10,704 | 15,989 | 49% |
| Diabetes | 7,925 | 12,253 | 55% |
| Demensia | 3,598 | 6,012 | 67% |
| Yn Ymwneud â Gofal | | | |
| Methu cyflawni o leiaf 1 gweithgaredd symudedd | 9,374 | 15,076 | 61% |
| Methu cyflawni o leiaf 1 dasg ddomestig | 20,619 | 32,677 | 58% |
| Methu cyflawni o leiaf 1 gweithgaredd symudedd | 16,945 | 26,770 | 58% |

Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn (50+ oed) yng Nghaerdydd yn cynyddu 26% yn gyffredinol yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, gyda nifer y rhai 85+ oed yn cynyddu'n sylweddol 94%, sef o 7,600 i 14 700 o bobl.

Ar yr un pryd a chyda disgwyliad oes yn cynyddu, disgwylir i amrywiaeth o gyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal gynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r tabl isod yn amlygu cynnydd o ran demensia fel problem benodol, gyda chynnydd 67% o ran pobl 65+ oed yn dioddef o'r clefyd erbyn 2035. Disgwylir hefyd i symudedd pobl hŷn waethygu hefyd gyda chynnydd 61% yn y nifer na all reoli o leiaf un gweithgaredd symudedd.

### Targedu Tai Cymdeithasol yn Effeithiol

Mae'r galw am dai cymdeithasol gan bobl hŷn yn uchel. Ar ddechrau mis Rhagfyr 2018, roedd 1,736 o ymgeiswyr ar Restr Aros Tai Caerdydd lle roedd yr aelwyd cyfan yn 50+ oed ac roedd 1,108 o'r rhain wedi mynegi diddordeb mewn llety i bobl hŷn. O'r rhain roedd gan fwy na hanner angen clir i symud, am resymau meddygol gan mwyaf, ac roedd blaenoriaeth ganddynt ar y rhestr aros. Fodd bynnag, ar gyfartaledd dim ond 237 o gartrefi ar gyfer pobl hŷn sy'n cael eu gosod bob blwyddyn. Mae angen clir i flaenoriaethu tai cymdeithasol i'r rhai mwyaf anghenus.

# Pobl

## Tai wedi'u Haddasu a Thai Hygyrch

Aseswyd bod ar 533 o bobl 50+ oed ar y rhestr aros angen rhyw fath o dai wedi'u haddasu neu dai hygyrch – roedd angen llety 'mynediad hawdd' ar 486, llety wedi'i addasu'n rhannol ar 33 a llety wedi'i addasu'n llawn sy'n hygyrch i gadeiriau olwynion ar 14. Mae'r angen hwn yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd a ddaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn a fydd yn eiddil.

Mae Gwasanaeth Cartrefi Hygyrch Caerdydd yn paru'r rhai y mae angen eiddo hygyrch arnynt â'r cartrefi sy'n dod ar gael er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r eiddo sydd ar gael. Ymgymerwyd â gwaith yn ddiweddar i brif-ffrydio'r rhestr aros am gartrefi wedi'u haddasu, gan sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu a bod cleientiaid ag anabledd yn gallu cael eu hystyried ar gyfer pob cartref addas, nid yn unig y rhai sydd eisoes wedi cael eu haddasu. Mae cartrefi wedi'u haddasu bellach yn cael eu categoreiddio'n 3 lefel i nodi cartrefi addas yn well a phan ddaw eiddo'n wag, rhoddir ystyriaeth i'r cyfle am addasiadau ychwanegol i ateb y galw cynyddol am lety sydd wedi'i addasu'n llawn.

Rhoddir blaenoriaeth ar y rhestr aros i denantiaid sy'n byw mewn cartrefi ag addasiadau nad oes eu hangen arnynt mwyach a chânt eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety mwy addas er mwyn cynyddu symudedd ac argaeledd llety wedi'i addasu ar gyfer y rhai y mae ei angen arnynt.

## Tai Gwarchod

Y cyfleusterau mwyaf cyffredin a ddarperir mewn tai gwarchod presennol yw larymau, lolfeydd cymunedol, golchdai, ystafelloedd gwesteion a lifftiau, gan adlewyrchu dyluniad hanesyddol y stoc. Yn llai cyffredin mae bwytai, ystafelloedd gweithgareddau ac ystafelloedd ymolch â chymorth, nodweddion a geir fel arfer mewn llety gofal ychwanegol.

Gall cyfleusterau gofal ychwanegol fod yn ddrud i'w hadeiladu ac i'w gweithredu ac mae'n bosibl y gallai cynlluniau tai gwarchod presennol, gydag ychydig o addasu, gynnig dewis rhad arall ond parhau i ddiwallu anghenion pobl oedrannus sy'n eiddil. Gallai hyn gynnwys datblygu "Tai Gwarchod Ychwanegol" neu "ofal Ychwanegol Ysgafn", naill ai trwy gynllun presennol neu ar y datblygiadau tai newydd.

Mae'r cymorth a ddarperir ar y safle mewn tai gwarchod yn amrywio. Er y byddai cynllun tai gwarchod nodweddiadol yn y gorffennol wedi cynnig cymorth warden yn ystod y dydd, nid yw hyn yn wir erbyn hyn. Mae'r newid hwn yn bennaf oherwydd newidiadau ariannu mewn perthynas â'r rhaglen Cefnogi pobl a pholisi o symud o gymorth ariannu sy'n gysylltiedig â mathau penodol o lety.

Er bod Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gadw rheolwr cynllun yn ei dai gwarchod ac wedi cynyddu'r cymorth a ddarperir yn y cynlluniau hyn yn ddiweddar, mae rhai landlordiaid cymdeithasol yn ailystyried ac yn tynnu eu cymorth ar y safle yn ôl. Gall y newidiadau i'r cymorth a ddarperir ar y safle leihau gallu cynlluniau tai gwarchod i ddiwallu anghenion cynyddol y boblogaeth hŷn ac mae angen gwaith pellach i nodi effaith hyn.

## Pobl

Gall cynigion ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer tai gwarchod a thai gofal ychwanegol ddylanwadu ar y cymorth a ddarperir yn y dyfodol gyda chostau tai'n parhau i gael eu talu trwy fudd-dal tai ond gyda therfyn heb ei bennu eto ar rent a thaliadau gwasanaethau cyffredinol, ac yn benodol i ba raddau y bydd gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn o ran sut i rhoi'r fath bolisi ar waith yng Nghymru, a hefyd i ba raddau mae preswylwyr yn fodlon talu am wasanaethau trydydd parti ychwanegol nad ydynt yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai

### Red Sea House

Cynllun Cymdeithas Tai Taf yw Red Sea House sy'n cynnwys 15 fflat hunangynhwysol, wedi'u dylunio a'u rheoli'n benodol i ddiwallu anghenion pobl hŷn o'r cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Gall staff gyfathrebu â'r tenantiaid yn eu prif iaith, darperir ar gyfer anghenion crefyddol yn nyluniad yr adeilad ac mae gan wasanaethau a staff cymorth ymwybyddiaeth ddiwylliannol well.

Yn wreiddiol datblygwyd Red Sea House i ddarparu gwasanaeth i hynafgwyr Somali yn agos at eu cymuned a'u rhwydweithiau sefydledig er mwyn diwallu eu hanghenion penodol. Mae'r cynllun wedi datblygu dros amser ac mae bellach yn agored i unigolion a phob rhywedd o grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer tai ymddeol.



## Canfyddiadau

Bydd darparu cymorth ar safle cynlluniau gwarchod yn bwysig wrth ddiwallu anghenion cynyddol y boblogaeth hŷn. Mae newidiadau ariannu eisoes wedi arwain at leihau'r cymorth sydd ar gael ac os bydd hyn yn parhau, bydd yn amharu ar allu cynlluniau gwarchod i ddiwallu anghenion cynyddol cleientiaid hŷn.

Mae cyfle i ddarparu dulliau gwahanol o gymorth megis "Gwarchod Ychwanegol" neu "Gofal Ychwanegol Ysgafn" fel dewisiadau i ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion y boblogaeth hŷn.

## BYDDWYN YN:

Adolygu'r cymorth a ddarperir mewn cynlluniau tai gwarchod i sicrhau y bydd yn diwallu anghenion pobl hŷn yn y dyfodol a byddwn yn archwilio'r cyfle i uwchraddio rhai cynlluniau tai gwarchod presennol i "Tai Gwarchod Ychwanegol" neu "Dai Gofal Ychwanegol Ysgafn", i lefel angen uwch.

# Pobl

## Dyrannu Tai Gwarchod

Mae rhai pobl hŷn wedi dangos ei bod yn well ganddynt symud i lety pobl hŷn am resymau diogelwch a diogeledd ac mae gan dai gwarchod rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiwallu'r anghenion hyn. Fodd bynnag, er y cedwir gwybodaeth helaeth am anghenion corfforol pobl hŷn ar y rhestr aros, prin yw'r wybodaeth am allgáu cymdeithasol a lles ac ar hyn o bryd ni chant y rhain eu cydnabod at ddibenion dyrannu.

Mae hefyd brinder gwybodaeth am ddyheadau tai pobl hŷn o ran y math o lety yr hoffent fyw ynddo. Er bod y galw am dai cymdeithasol yn uchel, mae'n cymryd 3 chynnig ar gyfartaledd i osod llety oedran penodol a 4 cynnig i osod tai gwarchod, sy'n dangos nad yw'r cynigion a wneir yn bodloni anghenion neu ddyheadau pobl hŷn.

Mae newidiadau yn yr arfaeth i reoli'r rhestr aros ar gyfer tai cymdeithasol er mwyn adlewyrchu'r *dewisiadau* tai yn well (o ran y mathau o lety) a'r *anghenion* tai (o ran allgáu cymdeithasol, diogelwch a diogeledd). Ceisir gwybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr newydd a chyfredol fel y gellir targedu llety'n well ar gyfer y rhai y mae ei angen fwyaf arnynt am resymau corfforol a rhesymau lles ehangach.

I gynorthwyo gyda hyn, bydd disgrifiadau clir o fathau l lety a'r hyn maent yn ei gynnig yn cael eu datblygu, ynghyd â map rhyngweithiol sy'n dangos lleoliad cyfadeiladau tai gwarchod a'r cyfleusterau a gynigir ym mhob un.

Dylai cyngor effeithiol wyneb yn wyneb yn ystod y broses ymgeisio helpu i sicrhau bod ymgeiswyr hŷn yn gwneud dewisiadau tai mwy gwybodus.

Caiff newidiadau i'r Cynllun Dyrannu eu hystyried i adlewyrchu anghenion ehangach pobl hŷn yn well. Er y bydd hyn yn parhau i gynnwys meini prawf oedran ac anghenion meddygol, byddai allgáu cymdeithasol a'r angen am ddiogelwch a diogeledd eu hystyried hefyd. Caiff anghenion gofal cymdeithasol ac eiddilwch y person hŷn eu cofnodi a'u hystyried hefyd.

**Cynhaliwyd ymarfer peilot lle gofynnwyd i ymgeiswyr tai hŷn i roi mwy o wybodaeth am y math o lety yr oeddent am iddynt gael eu hystyried ar ei gyfer. Dewisodd 76% o'r ymgeiswyr lety anghenion cyffredinol, dewisodd 81% lety byw'n annibynnol (oedran penodol) a dewisodd 29% lety Byd yn y Gymuned (gwarchod). Roedd y rhesymau a roddwyd am ddewis Byw yn Gymuned yn cynnwys y gwasanaethau a gynigir, cyfleoedd cymdeithasol, diogeledd a symudedd/diogelwch.**

## Canfyddiadau

Nid yw'r broses bresennol o ddyrannu tai cymdeithasol yn ystyried dewisiadau tai'r ymgeiswyr hŷn ac nid yw materion lles megis allgáu cymdeithasol a'r angen am ddiogelwch a diogeledd yn cael eu cofnodi neu eu hadlewyrchu yn y broses ddyrannu. Mae angen adolygu'r rhestr aros a'r trefniadau dyrannu er mwyn adlewyrchu dewisiadau tai ac anghenion ehangach pobl hŷn yn llawn.

## BYDDWYN YN :

Gwella dyraniad llety pobl hŷn, gofal ychwanegol ac wedi'i addasu, gan gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am anghenion a dyheadau unigolion a sicrhau rhoi blaenoriaetha i'r rhai mwyaf anghenus.

Adlewyrchu dewisiadau tai ac anghenion cymdeithasol ehangach pobl hŷn yn well yn y Polisi Dyrannu Tai, gan ystyried allgáu cymdeithasol, rhwydweithiau cymorth a'r angen i aros yn eu cymunedau. Sicrhau bod y polisi'n cefnogi'r rhai sydd am symud i lety llai.

# Pobl

## Llety Gofal Ychwanegol

Yng Nghaerdydd caiff Tai â Gofal neu lety "Gofal Ychwanegol" eu gosod ar hyn o bryd dan drefniadau ar wahân i dai cymdeithasol eraill a chaiff rhestri aros ar wahân eu cadw a'u cynnal gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Caiff ceisiadau eu hystyried gan bobl 60+ oed, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio gan Wasanaethau Oedolion y Cyngor, y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu unrhyw barti arall (gan gynnwys hunanatgyfeiriadau). Caiff amgylchiadau ac anghenion gofal a chymorth tai ymgeiswyr nad ydynt yn derbyn cymorth y Gwasanaethau Oedolion eisoes er mwyn cadarnhau eu cymhwysedd i fynd ar y rhestr aros.

Mae cymhwysedd yn seiliedig ar angen am wasanaethau na ellir eu darparu yn y gymuned y byddai angen cymorth mewn lleoliad preswyl fel arall. Gall ymgeiswyr nad ydynt yn derbyn pecyn gofal ffurfiol ar hyn o bryd fod yn gymwys o hyd os darperir gofal yn answyddogol.

Gwneir dyraniadau gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Oedolion a landlordiaid. Mae cleientiaid presennol y Gwasanaethau Oedolion sydd â'r angen mwyaf brys am ailgartrefu yn cael eu hystyried cyn ymgeiswyr eraill ar y rhestr aros.

Oherwydd trefniadau'r rhestri aros ar wahân, nid yw'r wybodaeth am y rhai sy'n aros am lety a'u hanghenion nhw ar gael yn rhwydd. Yn ôl adolygiad Housing LIN, "mae problem barhaus o ran cywirdeb a'r defnydd o ddata rhestri aros ar gyfer tai gofal ychwanegol". Nid yw'n glir a ellid diwallu anghenion trwy dai gwarchod neu



**Plas Bryn a Llys Enfys Cynllun Gofal Ychwanegol Linc Cymru**

lety arall. Mae hefyd yn aneglur a gaiff tai gofal ychwanegol ei hyrwyddo'n ddigonol fel dewis arall i lety preswyl. Mae angen adolygu trefniadau ymgeisio a rhestri aros ar gyfer llety gofal ychwanegol er mwyn sicrhau bod y galw am y math hwn o lety ar draws y ddinas yn cael ei ddeall yn llawn a bod y llety sydd ar gael yn cael ei hyrwyddo er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd pwysig hwn.

**BYDDWN YN:**


- Adolygu'r broses o ddyrannu tai gofal ychwanegol, gan gynnwys cyflwyno rhestr aros ganolog a pholisïau dyrannu clir.
- Hyrwyddo tai gofal ychwanegol fel dewis arall i ofal preswyl ac fel cam i lawr o'r ysbyty.


# Pobl

## Gofal Preswyl a Nyrsio

Darperir gofal preswyl a nyrsio mewn cartrefi gofal sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn cael eu rheoleiddio ganddi. Mae'n darparu gwasanaethau llety, gofal, cymorth ac iechyd (yn achos cartrefi nyrsio) ar gyfer pobl â lefelau uchel o anabledd ac afiechyd. Bydd nifer sylweddol o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn byw â demensia cynyddol, yn aml ynghyd ag eiddilwch corfforol. Mae preswylwyr cartrefi gofal naill ai'n symud i gartrefi gofal dan drefniadau preifat, neu o ganlyniad i asesiadau a chynllunio gofal a wneir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar gyfer gwasanaethau iechyd.

### Lleoliadau Gofal a Ariennir gan yr Awdurdod Lleol




Ar 27/10/2018 roedd 455 o leoliadau nyrsio a ariennir a 374 o leoliadau preswyl a ariennir. Oedran cyfartalog y bobl oedd yn derbyn gofal nyrsio oedd 83 oed, ac oedran cyfartalog y bobl oedd yn derbyn gofal preswyl oedd 71 oed. Ar gyfartaledd roedd oedolion 65+ oed yn derbyn cymorth am 657 o ddiwrnodau mewn gofal nyrsio a 949 o ddiwrnodau mewn gofal preswyl.

Mewn gwirionedd, dros y 5 mlynedd diwethaf mae nifer y lleoliadau gofal nyrsio wedi cynyddu y tu hwnt i'r lefel a ddisgwylid, ar sail cynnydd a amcangyfrifwyd yn y boblogaeth.

Mae nifer gwirioneddol y lleoliadau gofal preswyl wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod, yn groes i'r nifer a amcangyfrifwyd. Mae'r gostyngiad yn y nifer sy'n mynd i gartref gofal preswyl wedi'i achosi gan y ffaith bod gwasanaethau bellach ar gael yn y gymuned i gadw pobl allan o sefydliadau gofal am amser hwy. Mae'r Cyngor yn gallu cynorthwyo pobl sy'n gynyddol eiddil yn eu cartrefi nes iddynt gyrraedd y pwynt lle mae angen gofal nyrsio arnynt.

# Pobl



**Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio yng Nghaerdydd**
Brig: Sunrise of Cardiff & Woodcroft
Gwaelod: Cartref Gofal Tŷ Dinas a Heol Don

## Darpariaeth y Dyfodol

Mae'r asesiad anghenion a gynhaliwyd ar gyfer y strategaeth hon yn amcangyfrif angen am **655 o welyau cartref nyrsio ychwanegol**, oni bai bod modeli darpariaeth presennol yn newid. Mae hyn yn heriol iawn gan fod y sector gofal preswyl a nyrsio, yn gyffredin â'r GIG, yn cael anawsterau sylweddol wrth recriwtio a chadw'r nifer a'r safon priodol o staff nyrsio. Mae angen adolygu modeli darpariaeth gofal cartref a modeli gweithlu ar hyn o bryd er mwyn datblygu gwasanaethau llety, gofal ac iechyd arloesol a chreadigol sy'n gallu diwallu anghenion ein preswylwyr mwyaf eiddil ac agored i niwed. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod pobl sy'n gallu cael eu hailalluogi i fyw'n fwy annibynnol â chymorth yn cael cymorth i wneud hyn.

## BYDDWYN YN:

- Datblygu darpariaeth ailalluogi preswyl i sicrhau na fydd neb yn symud i ofal preswyl hirdymor heb asesiad trylwyr o'u hanghenion mewn lleoliad preswyl tymor byr.
- Cynnal adolygiad manwl o ddewisiadau creadigol o ran llety, gofal, cymorth a nyrsio ar gyfer preswylwyr mwyaf eiddil ac agored i niwed Caerdydd.
- Datblygu dulliau arloesol o wasanaethau gofal a chymorth a nyrsio sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu a'u cymunedau eu hunain a darparu'r safon uchaf o gartrefi gofal i bobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Archwilio'r defnydd o dechnoleg newydd ymhellach i helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi'n hwy.

# Pwysigrwydd Cymuned

### Effaith Allgáu Cymdeithasol

Gall sawl ffactor, megis anabledd a cholli ffrindiau ac aelodau o'r teulu, beri i bobl hŷn fod yn arbennig o agored i unigrwydd ac allgáu cymdeithasol a gall hyn gael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u lles. Mae ymchwil wedi amlygu y gellir cymharu allgáu cymdeithasol â risgiau iechyd megis ysmygu ac yfed alcohol. Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer lliniaru allgáu cymdeithasol wedi cael ei ddatblygu gan Gyngor Caerdydd.

### Hybiau Cymunedol

Mae project Hybiau Cymunedol Caerdydd wedi cydlynu gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid i gynnig darpariaeth leol gynhwysfawr ar sail anghenion yr ardal. Mae gan Gyngor Caerdydd 12 hyb yn y ddinas. Mae Hyb y Llyfrgell Ganolog yng nghanol y ddinas, gydag 11 o Hybiau Cymunedol eraill ar hyd a lled y ddinas yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

Yn ogystal â rhoi cyngor, mae gan yr hybiau rôl bwysig i'w chwarae wrth annog cyfranogiad y gymuned a chynhelir amrywiaeth o weithgareddau yn yr Hybiau Cymunedol yn benodol ar gyfer pobl hŷn Caerdydd. Mae astudiaethau wedi dangos bod cyswllt pontio'r cenedlaethau yn effeithiol iawn wrth oresgyn unigrwydd ac allgáu cymdeithasol.



Mae pobl a phlant hŷn wedi elwa ar y rhyngweithio yn ystod partïon a digwyddiadau pontio'r cenedlaethau sydd wedi'u cynnal yn yr hybiau.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Sesiynau Lles ar Ddydd Mercher


Mae Hyb Ystum Taf a Gabalfa yn cynnal Sesiynau Lles ar Ddydd Mercher bob wythnos, gyda gweithgareddau penodol ar gyfer pobl 50+ oed.  Mae hyn yn cynnwys clwb garddio a chinio, dosbarth codi pwysau i'r rhai 50+ oed a chlinig strôc. Mae Age Connect hefyd yn hwyluso gwasanaeth gofal ewinedd. Darperir gwybodaeth hefyd am Bryd ar Glud, y tîm nyrsio cymunedol a theleofal. Mae Tai United Welsh yn darparu sesiynau lles lle caiff cwsmeriaid eu cynorthwyo i greu cysylltiadau â'r gymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a diddordebau a allai fod o ddiddordeb iddynt. Yn ogystal bwriedir darparu dosbarthiadau ioga pontio'r cenedlaethau yn y dyfodol agos.



# Pwysigrwydd Cymuned

## Hybiau Lles Cymunedol

Oherwydd nifer cynyddol y bobl hŷn a'r broblem gydag allgáu cymdeithasol, cydnabyddir bod angen estyn rhaglen yr hybiau i rannau eraill o'r ddinas gyda ffocws ar les, ymgysylltu â'r gymuned a byw'n annibynnol. Caiff y llyfrgelloedd cangen presennol yng ngogledd a gorllewin y ddinas eu defnyddio fel canolfan ar gyfer y gwasanaethau newydd.




***Dengys y map uchod yr hybiau cymunedol presennol a safleoedd hybiau lles arfaethedig.***

Bydd Hybiau Lles Cymunedol yn:

- Cynnig cyngor ar Fyw'n Annibynnol
- Ymgysylltu â'r gymuned trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau i bobl hŷn
- Cynnwys sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i wella'r gwasanaethau a ddarperir
- Chwarae rôl arweiniol o ran rhagnodi cymdeithasol ar gyfer meddygon teulu

Yn ogystal â datblygu yr hybiau cymunedol/ lles, bydd pedwar Swyddog Cynhwysiant Cymunedol newydd yn cael eu cyflogi i ddarparu 'cymorth ymarferol' i grwpiau lleol gan weithio o'r hybiau i:

- Gydlynu cyfleoedd ymgysylltu
- Datblygu gwybodaeth a rhwydweithiau lleol
- Helpu i ddatblygu cyfleoedd 'dinasyddion gweithredol'
- Cysylltu â gwasanaethau cymunedol eraill

# Pwysigrwydd Cymuned

## Iechyd a Lles

Caiff gwasanaeth iechyd a lles newydd ei ddarparu i ddatblygu digwyddiadau a gweithgareddau yn benodol ar gyfer anghenion lles dinasyddion Caerdydd. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynorthwyo hybiau Caerdydd i gael effaith gadarnhaol ar yr agenda Heneiddio'n Dda a chefnogi nodau'r ymagwedd Dinas sy'n Deall Demensia. Bydd hyn yn cynnwys:

- Creu mannau gwybodaeth am ddemensia ym mhob hyb ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimer
- Cynnal sesiynau Cymorth Demensia mewn Hybiau Cymunedol, ar y cyd â phartneriaid iechyd, i roi cyfleoedd anffurfiol i'r rhai sy'n dioddef o ddemensia a'u gofalwyr fel y gallant gael cymorth ac atgyfeiriadau effeithiol er mwyn galluogi unigolion i "fyw'n dda â demensia".
- Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyfeillion Demensia i staff yr hybiau
- Darparu Caffis Demensia yn yr hybiau
- Rhoi mynediad i adnoddau a gwybodaeth gan gynnwys Llyfrau Reading Well ar bresgripsiwn (demensia) yn ogystal â Llyfrau Reading Well ar bresgripsiwn (Iechyd Meddwl) a gânt eu lansio yn 2019/20
- Cyflwyno rhaglen ddigwyddiadau benodol i gynnwys Diwrnod Cenedlaethol Gofalwyr Demensia ac Wythnos Gweithredu ar Ddemensia

Bydd y gwasanaeth hefyd yn galluogi'r hybiau i gynnig rhagor o wasanaethau cyngor a chymorth pwrpasol i bobl hŷn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau am iechyd meddwl, gweithgareddau pontio'r cenedlaethau a chymorth i ofalwyr er mwyn cynnal eu lles eu hunain trwy gynnal digwyddiadau a gweithgareddau. Rhoddir blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r allgáu cymdeithasol sy'n gallu amharu ar y grŵp oedran hwn a chynhelir gweithgareddau i ddod â rhwydweithiau o bobl ynghyd.

Rhaglen Cyfeillion Dementia'r Gymdeithas Alzheimer yw'r fenter fwyaf erioed i newid canfyddiad pobl o ddemensia. Ei nod yw trawsnewid y modd mae pobl yn meddwl, yn gweithredu ac yn siarad am y cyflwr.

Gall dealltwriaeth y cyhoedd o ddemensia fod yn wael ac yn aml gall pobl â demensia deimlo eu bod yn cael eu camddeall, eu hymylu a'u hallgau. Mae dod yn Gyfaill Demensia yn golygu dysgu mwy am sut mae demensia'n effeithio ar rywun a defnyddio'r ddealltwriath hon i wneud pethau bach pob dydd sy'n helpu.

# Pwysigrwydd Cymuned

## Canolfannau Dydd

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu tair canolfan ddydd sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal a chymorth lefel uchel.



**Canolfan Ddydd Minehead Road** yn Llanrhymni oedd y ganolfan gyntaf i elwa ar waith adnewyddu yn rhan o'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd.

Mae **Canolfan Ddydd Grand Avenue** yn Elái wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar i greu canolfan ddemensia arbenigol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae bellach yn darparu cymorth gwell i unigolion a'u gofalwyr.



Dechreuodd gwaith adnewyddu yng **Nghanolfan Ddydd y Tyllgoed** ym mis Ionawr 2019 a disgwylir iddi ailagor yn ystod haf 2019.

# Pwysigrwydd Cymuned

## Tîm Cyfleoedd Dydd



Mae'r Tîm Cyfleoedd Dydd yn y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn darparu cymorth un-i-un er mwyn helpu pobl hŷn i ailgysylltu ac aros yn rhan o'u cymuned. Mae'r tîm yn helpu cleientiaid i ddod o hyd i ac chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, trwy ddarparu cymorth tymor byr ac ymyrraeth benodol.

## Gwasanaethau Rhagnodi Cymdeithasol a Lles

Mae Gwasanaethau Rhagnodi Cymdeithasol yn galluogi gweithwyr proffesiynol meddygol ac eraill i "ragnodi" atebion yn y gymuned i'w cleientiaid, yn aml i liniaru problemau lles meddyliol neu allgáu cymdeithasol lefel isel.

Yn ystod 2018/19 caiff dull newydd o ragnodi cymdeithasol ei dreialu yng Nghaerdydd a'r Fro i hwyluso'r defnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael. Bydd y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn darparu man mynediad unigol newydd ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yng Nghaerdydd. Bydd y gwasanaeth gwe a ffôn hwn yn galluogi unigolion neu weithwyr proffesiynol i chwilio am wasanaethau lles perthnasol. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cynnwys mynediad 24 awr i swyddogaeth 'chatbot' ar y wefan a hefyd yn sicrhau mannau mynediad cymunedol mewn meddygfeydd, fferyllfeydd, hybiau ac adeiladau cymunedol eraill i bobl atgyfeirio eu hunain lle bo'n briodol.

## Gwasanaethau Cyfeillio

Mae Cyngor Caerdydd yn ariannu gwasanaeth cyfeillio i bobl hŷn trwy Age Connect. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018, cafodd 166 o gleientiaid eu cynorthwyo gan y gwasanaeth hwn. Mae rhai o'r cleientiaid hyn wedi disgrifio pwysigrwydd y gwasanaeth iddyn nhw.

### Gwasanaethau Cyfeillio Age Connect

Mae Cyngor Caerdydd yn ariannu gwasanaeth cyfeillio i bobl hŷn trwy Age Connect. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018, cafodd 166 o gleientiaid eu cynorthwyo gan y gwasanaeth hwn. Mae rhai o'r cleientiaid hyn wedi disgrifio pwysigrwydd y gwasanaeth iddyn nhw.

**"Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Dwi'n hoffi mynd i gerdded a dyw fy nheulu ddim yn hapus os dwi'n mynd ar fy mhen fy un. Mae'n rhywbeth dwi'n edrych ymlaen ato"**

**"Mae wedi gwella fy hunan-barch a'm hyder"**

**"Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fi oherwydd mai prin roeddwn yn gweld unrhyw un"**

# Pwysigrwydd Cymuned

## Cynlluniau Byw yn y Gymuned

Mae'r cyfle i ddefnyddio cynlluniau Byw yn y Gymuned y Cyngor fel 'hyb' ardal i breswylwyr a phobl hŷn yn y cyffiniau'n cael ei dreialu yng nghyfadeilad Llys Sandown sydd wedi'i adnewyddu. Bydd y lle cymunedol wedi'i adlunio yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn sy'n byw yn y cynllun a'r ardal gerllaw a ddarperir mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r nod o hybu annibyniaeth, gwella ansawdd bywyd, cadw preswylwyr yn heini ac yn iach a lleihau allgáu cymdeithasol ac unigrwydd.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ymweliadol megis iechyd (gwiriadau pwysau gwaed, profion golwg a chlyw, trin traed), trin gwallt a chymorthfeydd galw heibio ar bynciau megis cyllidebu, effeithlonrwydd ynni a gwasanaethau'r Cyngor. Gellir cynnig dosbarthiadau, e.e. sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol, cadw'n heini a chymorth cyntaf. Mae gweithgareddau iechyd eisoes wedi dechrau yn Llys Sandown gyda phrofion llygaid yn cael eu cynnal yn y cynllun gan Specsavers. I gynorthwyo preswylwyr gyda symudedd ac atal cwympo, darperir T'ai Chi a hyfforddiant ffitrwydd ysgafn ar y safle.



**Preswylwyr o Worcester Court yn mwynhau'r Clwb Garddio**

## ASTUDIAETH ACHOS

Mae Mr M wedi byw yn Llys Sandown ers 15 mlynedd. Pan symudodd i'r cyfadeilad, roedd yn byw mewn fflat un ystafell ond mae bellach wedi symud i fflat go iawn ac ers y gwaith adnewyddu diweddar, mae maint ei fflat wedi cynyddu. *"Roeddwn wrth fy modd, mae bellach fflat a hanner 'da fi! Mae'r gorffeniad yn berffaith."*

Dywedodd Mr M fod pobl newydd wedi symud yno a'u bod yn cael eu croesawu i'r gymuned. "Mae clwb brecwast 'da ni, a chlwb ffilmiau yn y prynhawn – mae'n helpu pobl i gyd-dynnu. Dwi'n gobeithio y byddwn yn gwneud peth bingo hefyd."

Mae pob fflat wedi'i chysylltu â chamerâu teledu cylch cyfyng a system intercom Tunstall Care-line. Mae'r system hefyd wedi'i chysylltu â synwyryddion mwg a gwres. *"Os bydd rhywun yn curo ar fy nrws, dwi'n gallu edrych yn gyflym ar y teledu cylch cyfyng i weld pwy sydd yno. Os nad ydw i'n nabod y person, fydda i ddim yn ei adael mewn!"*

Mae ysbryd cymuned yn y cyfadeilad ac mae Mr M yn adnabyddus iawn. "Mi wnes i baentio'r meinciau yn y gerddi pan agorwyd y cyfadeilad yn swyddogol ar ôl ei adnewyddu ac os oes angen help ar rywun wrth osod pecyn gwastad neu newid bwlb golau, dwi bob amser yn barod i helpu."

# Pwysigrwydd Cymuned

## Canfyddiadau

- Mae cysylltiad â'r gymuned yn allweddol i les llawer o bobl hŷn.
- Mae gan Gaerdydd amrywiaeth eang o wasanaethau i helpu i atal allgáu cymdeithasol a hyrwyddo lles; mae llawer yn seiliedig ar Hybiau Cymunedol y Cyngor.
- Mae nifer o fentrau newydd yn cael eu datblygu i barhau â hyn, gan gynnwys yr hybiau lles cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas a chynigion i agor y cyfleusterau yng nghyfadeiladau tai pobl hŷn i'r gymuned ehangach.

## BYDDWN YN:


- Gwneud defnydd gwell o Gynlluniau Byw yn y Gymuned y Cyngor er mwyn cynnig gwasanaethau i'r gymuned ehangach, mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Cynyddu rhaglen yr Hybiau Cymunedol trwy ddatblygu Hybiau Lles Cymunedol yng ngogledd a gorllewin y ddinas i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau cynghori a chymdeithasol i bobl hŷn.
- Treialu dull newydd o ragnodi cymdeithasol, gan sicrhau bod unigolion a gweithwyr proffesiynol yn cael mynediad hawdd i wasanaethau lles yn y gymuned.
- Parhau i fod yn sefydliad sy'n deall demensia trwy sicrhau bod pob aelod o staff yr hybiau'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth Cyfeillion Demensia.

# Cydraddoldeb

## Oedran a Rhywedd

Ym mis Medi 2017 cynhaliwyd ymarfer proffilio tenantiaid llety gwarchod. O'r 1,141 o denantiaid a broffiliwyd, dengys y tablau gerllaw ddadansoddiad o'u hoedran a'u rhywedd. Roedd mwy na hanner y tenantiaid dros 70 oed, sy'n dangos bod y llety yn diwallu anghenion y boblogaeth oedrannus.

| Data Proffilio Llety Gwarchod 2017 | | | Poblogaeth Caerdydd | |
|---|---|---|---|---|
| **OEDRAN** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| **50-59** | 93 | 8% | 41,200 | 38% |
| **60-69** | 365 | 32% | 31,800 | 29% |
| **70-79** | 347 | 30% | 21,200 | 20% |
| **80-89** | 256 | 22% | 11,800 | 11% |
| **90+** | 71 | 6% | 2,700 | 3% |




## Ymgeiswyr y Rhestr Aros

Ar hyn o bryd (Rhagfyr 2018) mae 1,719 o aelwydydd ar y rhestr aros lle mae pob aelod yn 50 oed neu'n hŷn ac felly'n gymwys am dai pobl hŷn (22%). Mae hyn yn dangos bod gan bobl hŷn gynrychiolaeth dda ar y rhestr aros. Cafodd 18% o'r holl eiddo a osodwyd ei roi i'r grŵp hwn.

O'r 1719 o aelwydydd, dim ond 44 sy'n 85 oed neu hŷn (1% o'r rhestr aros). Mae hyn yn cymharu â 2% o boblogaeth Caerdydd sy'n 85 oed neu hŷn. Bydd yr uned Cartrefi Pobl Hŷn a Hygyrch yn helpu i sicrhau bod anghenion tai'r boblogaeth hŷn yn cael eu hystyried yn llawn.

# Cydraddoldeb

## Ethnigrwydd

Dengys y tablau gerllaw ethnigrwydd poblogaeth Caerdydd a dynnwyd o gyfrifiad 2011 a chanlyniadau'r ymarfer proffilio tenantiaid llety gwarchod yn 2017. Ni ellir cymharu hyn yn uniongyrchol ag ethnigrwydd poblogaeth Caerdydd oherwydd y categorïau ethnigrwydd amrywiol. Fodd bynnag, mae'n dangos yn fras bod dinasyddion pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n dda yn y cynlluniau.

Mae dadansoddiad o ddata Rhestr Aros Tai Caerdydd (a llety a roddir ar osod wedyn) hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Caerdydd yn fras.

**Ethnigrwydd y Boblogaeth 50+ Oed**

| Ethnigrwydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 93,096 | 93.5% |
| Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig | 1157 | 1.2% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 3471 | 3.5% |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/ Du Prydeinig | 1154 | 1.2% |
| Grŵp Ethnig Eraill | 740 | 0.7% |
| Cyfanswm yn 50+ Oed | 99,618 | 100% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Tabl LC2101EW*

**Ethnigrwydd y Preswylwyr 50+ oed sy'n byw yng**

| ETHNIGRWYDD* | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 926 | 85% |
| Gwyn Arall | 20 | |
| Du/Du Prydeinig | 48 | 4% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 26 | 2% |
| Unrhyw Grŵp Cymysg Arall | 6 | 1% |
| Arall | 30 | 3% |
| Heb ei Nodi | 61 | 5% |

## Religion

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o grefydd ymgeiswyr ar restri aros 50+ oed a phoblogaeth Caerdydd 50+ oed. Mae gwahaniaethau sylweddol, yn benodol nifer uchel yr ymgeiswyr ar restri aros nas nodwyd eu crefydd.

Mae angen gwella o ran cofnodi crefydd ar y rhestr aros. Mae hefyd angen deall yn well sut mae crefydd yn effeithio ar angen tai.

| Crefydd | Rhestr aros | % | Poblogaeth Caerdydd | % |
|---|---|---|---|---|
| Cristnogol | 477 | 28.0 | 69,747 | 70.0 |
| Bwdhaidd | 4 | 0.2 | 345 | 0.3 |
| Hindŵ | 3 | 0.2 | 724 | 0.7 |
| Iddew | 3 | 0.2 | 405 | 0.4 |
| Mwslim | 34 | 2.0 | 2,503 | 2.5 |
| Sîc | 1 | 0.1 | 197 | 0.2 |
| Crefydd arall | 32 | 2.0 | 322 | 0.3 |
| Dim cre-fydd | 211 | 12.0 | 16,728 | 16.8 |
| Crefydd heb ei nodi | 954 | 55.0 | 8,647 | 8.7 |
| Cyfanswm | 1719 | 100.0 | 99,618 | 100.0 |

## BYDDWN YN:

Gweithio i ddeall yn well sut mae crefydd yn effeithio ar angen tai.

# Cydraddoldeb

## Physical Health

Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn yng Nghaerdydd ag anableddau corfforol yn cynyddu'n sylweddol, a disgwylir cynnydd 61% yn nifer y rheiny na all lwyddo i gyflawni o leiaf un gweithgaredd symudedd rhwng 2015 a 2035.

Ym mis Rhagfyr 2018, aseswyd bod ar 533 o bobl 50+ oed ar y rhestr aros angen rhyw fath o dai wedi'u haddasu neu dai hygyrch – roedd angen llety 'mynediad hawdd' ar 486, llety wedi'i addasu'n rhannol ar 33 a llety wedi'i addasu'n llawn sy'n hygyrch i gadeiriau olwynion ar 14.

Yn 2017/18, roedd 49 (19%) o'r 258 o gartrefi a roddwyd ar osod i ymgeiswyr 50+ oed ar Restr Aros Tai Caerdydd yn gartrefi wedi'u haddasu neu â mynediad hawdd.

Fel y nodir yn y strategaeth, bydd yr Uned Cartrefi Hygyrch a Phobl Hŷn yn cefnogi pobl sydd ag anableddau i gael eiddo wedi'u haddasu.

Mae cynlluniau adeiladau newydd y Cyngor yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n cynnig cartrefi hyblyg a hygyrch sy'n gallu addasu i anghenion newidiol pobl.

## Iechyd meddwl

Yn 2017/18 i'r bobl 50+ oed a oedd yn derbyn cymorth yn ôl yr angen, roedd problemau iechyd meddwl yn angen cymorth sylweddol gyda 98 o achosion (18%) wedi'u cofnodi'n brif angen a 77 (23%) yn angen eilaidd.



Yn ogystal, problemau iechyd meddwl oedd angen eilaidd mwyaf cleientiaid yr oedd eu prif reswm am fod ag angen cymorth oedd eu bod yn 55+ oed, gyda 40 o achosion wedi'u cofnodi. Mae angen archwilio'r data ymhellach wrth fwrw ymlaen er mwyn sicrhau bod anghenion cymorth unigol yn cael eu nodi a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud.

Roedd gan nifer sylweddol o bobl hŷn a oedd yn derbyn cymorth yn ôl yr angen broblemau iechyd meddwl. Byddai gwirio sampl o achosion yn y dyfodol o fudd i ddeall anghenion cymorth unigol y grŵp hwn er mwyn cyfeirio gwasanaethau yn y dyfodol.

## Y Camau Nesaf

Bydd yr amcanion “Byddwn yn” a geir trwy gydol y strategaeth hon yn sail i gynllun gweithredu pedwar mlynedd, i’w ddatblygu gyda phartneriaid. Bydd y cynllun gweithredu’n rhoi manylion y gweithgareddau allweddol i’w cynnal ac yn nodi amcanion clir, ynghyd â swyddogion a/neu sefydliadau â chyfrifoldeb arweiniol. Caiff y broses o’u cyflawni ei monitro’n ofalus a chaiff y cynllun gweithredu ei adolygu a’i ddiweddaru yn ôl yr angen. NI all y Cyngor weithredu’r strategaeth ar ei ben ei hun a bydd gwaith partneriaeth yn hanfodol i sicrhau’r canlyniadau a’r atebion gorau.

**This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg**

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD